Cod Deunydd Ar-lein y BBC

Canllawiau Cyfun

Canllawiau

Cyhoeddwyd ar 19 Tachwedd 2026

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein 5

Adran Un: Diogelu pobl ifanc dan ddeunaw 9

Adran Dau: Niwed a thramgwydd 13

Adran Tri: Trosedd, anhrefn, casineb a chamdriniaeth 17

Adran Pedwar: Crefydd 21

Adran Pump: Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy 23

Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda 35

Cyflwyniad

Sut mae defnyddio'r Canllawiau

1.1 Darperir y Canllawiau hyn i helpu'r BBC a'i gynulleidfaoedd i ddeall sut bydd Ofcom fel arfer yn dehongli ac yn defnyddio Cod Deunydd Ar-lein y BBC (y "Cod").

1.2 Ceir chwe adran i'r Cod ac mae gan bob adran Nodiadau Canllaw sy'n cyfeirio at yr adran a'r rheolau perthnasol.

1.3 Mae'r Canllawiau'n canolbwyntio'n bennaf ar roi gwybodaeth ac eglurder i'r BBC, yn ogystal ag ar roi cyd-destun i gynulleidfaoedd ynghylch sut gellir defnyddio'r safonau sylfaenol a adlewyrchir yn y Cod yn yr amgylchedd ar-lein.

1.4 Dylai'r BBC fod yn ymwybodol o gefndir deddfwriaethol y rheolau, yr egwyddorion sy'n berthnasol i bob adran, yr ystyron a roddwyd gan Ofcom a'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ofcom, y gallent oll fod yn berthnasol wrth ddehongli a gweithredu'r Cod. Ni ddylid darllen unrhyw reol ar ei phen ei hun ond yn hytrach o fewn cyd-destun y Cod cyfan a'r Cod Tegwch gan gynnwys y penawdau, y croesgyfeiriadau a thestun cysylltiol arall.

1.5 Ymdrinnir â phob cwyn neu achos yn unol â'u ffeithiau unigol.

Canllawiau Cod Deunydd Ar-lein y BBC a'u perthynas â Chanllawiau'r Cod Darlledu

1.6 Fel sy'n ofynnol o dan Gytundeb Fframwaith diweddaraf y BBC (a ddiweddarwyd yn 2025), mae amcanion perthnasol y safonau sy'n sail i'r Cod yn deillio o'r set ehangach o amcanion safonau sy'n berthnasol i gynnwys rhaglenni ar wasanaethau teledu a radio o dan y Cod Darlledu. Wrth lunio'r Cod, mae'n rhaid i Ofcom hefyd roi sylw penodol i'r amcan o osod safonau sy'n gyson (i'r graddau sy'n briodol) â'r safonau cyfatebol sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Cod Darlledu. O ganlyniad, mae'r Cod yn adlewyrchu'n fras y rheolau o dan y Cod Darlledu a cheir felly gysylltiad clir rhwng y ddau.

1.7 Am y rheswm hwn, mae'r Canllawiau hyn yn nodi lle rydym yn credu y gallai fod yn ddefnyddiol i'r BBC gyfeirio at y nodiadau Canllaw ar gyfer y Cod Darlledu fel cefndir a chyd-destun ehangach o amgylch amcanion yr un safonau, ar yr amod bod yr amgylchedd ar-lein yn wahanol i ddarlledu a bod y rheolau darlledu'n seiliedig ar y cysyniad o "raglenni" mewn amgylchedd llinol sydd wedi'i amserlennu.

1.8 Mae hefyd yn bwysig nodi bod y Cod hwn yn berthnasol i'r BBC yn unig, ond y bwriedir i'r Cod Darlledu wasanaethu nifer o ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig o wahanol fathau sy'n amrywiol iawn o ran eu maint, eu natur a'u cynulleidfa.

Cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd (Adrannau Saith (Tegwch) ac Wyth (Preifatrwydd) y Cod Darlledu)

1.9 Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn darparu bod yn rhaid i'r BBC lynu wrth y "Cod Tegwch", cyn belled ag y bo'n berthnasol i ddeunydd ar-lein. Mae'r Cod hwn eisoes mewn grym drwy gyfrwng Adran Saith (Tegwch) ac Adran Wyth (Preifatrwydd) y Cod Darlledu. Felly, nid yw Ofcom wedi cynnwys adrannau newydd yn y Cod sy'n ymwneud â'r "Cod Tegwch".

1.10 Dylai'r BBC gyfeirio at adrannau uchod y Cod Darlledu a'r canllawiau cysylltiedig ar yr adrannau hyn mewn perthynas â'i gyfrifoldebau yn y meysydd hyn.

Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein

Eitemau ar-lein a chyflwyno cynnwys

2.1 Mae'r term 'eitem ar-lein' wedi'i ddiffinio yn y Cyflwyniad i God Deunydd Ar-lein y BBC fel a ganlyn:

> Caiff **"eitem ar-lein"** ei diffinio fel trefniant o ddeunydd ar-lein a gyflwynir i gynulleidfaoedd fel un eitem adnabyddadwy. Gallai hyn gynnwys testun ysgrifenedig; deunyddiau llonydd neu symudol, gyda neu heb sain; deunyddiau ar-lein sain yn unig; neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Gall eitem ar-lein gael ei diweddaru dros amser ond bydd yn dal i fod yn adnabyddadwy fel yr un eitem. Gallai eitem ar-lein gynnwys, er enghraifft, erthygl-destun gyda dolenni, delweddau, sain neu fideo wedi'u hymgorffori; eitem fideo neu sain unigol, gan gynnwys rhaglen sy'n cael ei ffrydio'n fyw; neu gynnwys annibynnol arall.

2.2 Gellir dod ar draws deunydd ar-lein mewn gwahanol ffurfiau a gall y ffordd y mae'n ymddangos neu'n cael ei gyflwyno effeithio ar sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu ag ef. Er enghraifft, efallai y bydd cynulleidfaoedd yn gweld elfen neu ddarn o ddeunydd, fel pennawd, delwedd mân-lun, capsiwn, hysbysiad neu bost cyfryngau cymdeithasol, ond nid ydynt o reidrwydd yn ymgysylltu â'r eitem gyflawn ar-lein.

2.3 Bydd Ofcom yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth asesu darnau sy'n cysylltu â phrif erthygl. Gall y rhain gynnwys natur ac arwyddocâd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno, sut mae hyn yn cysylltu â'r cynnwys ehangach y mae'n rhan ohono, y ffordd y mae'n cael ei chyflwyno a sut mae'n cael ei hamlygu i gynulleidfaoedd.

2.4 Wrth weithredu'r Cod, byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried sut gallai eitem ar-lein sylfaenol gyfrannu at y risg i'r deunydd fod, er enghraifft, yn sylweddol gamarweiniol, ddim yn ddigon cywir neu ddiduedd, neu o bosibl yn annheg ag unigolion neu sefydliadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â phenawdau, delweddau, hysbysiadau a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol pan na fydd defnyddiwr bob amser o bosibl yn dilyn dolen drwodd i ddeall cyd-destun llawn yr eitem ar-lein.

2.5 Bydd y ffordd y mae cynnwys yn cael ei ddarparu a'i gyflwyno i gynulleidfaoedd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu sut y dylid ei asesu ac a allai fod yn eitem ar-lein ynddi'i hun.

Natur barhaol deunydd ar-lein

2.6 Er bod cyfyngiad amser ar y ffenestr i gwyno wrth y BBC, ac wedyn Ofcom, am ddeunydd ar-lein penodol, rydym yn cydnabod y bydd profiad y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd o gynnwys yn y byd go iawn yn cael ei siapio gan natur barhaol deunydd ar-lein.

2.7 Gall ystyriaethau ychwanegol fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC ar ei gwasanaethau ei hun lle gall ei bresenoldeb parhaus a pharhaol, a nodweddion fel chwilio neu ailhyrwyddo, arwain at roi amlygrwydd o'r newydd i eitemau ar-lein. Bydd y rhain yn ffactorau perthnasol i'w hystyried wrth weithredu'r Cod. Er enghraifft, gall adroddiadau ar straeon trawmatig neu ddigwyddiadau yn y gorffennol ailgodi i'r wyneb ac achosi niwed neu ofid.

2.8 Mae natur barhaol deunydd ar-lein yn ystyriaeth allweddol gydol y Cod. Er enghraifft, yn Adran Un, mae'n berthnasol wrth farnu pa mor briodol yw'r mesurau wrth ystyried ffactorau fel natur y cynnwys a'r risg bosibl i rai dan ddeunaw oed, a'r tebygolrwydd y bydd rhai dan ddeunaw oed yn gweld y cynnwys [a'u hoedran tebygol].

2.9 Mae'r rheolau yn Adran Un, sy'n ymwneud â rhoi sylw i droseddau rhywiol a throseddau eraill yn y DU sy'n ymwneud â rhai dan ddeunaw oed, yn pwysleisio na ddylai'r BBC roi cliwiau a allai arwain at adnabod y bobl ifanc dan ddeunaw oed neu beryglu sefyllfa fregus tystion neu ddioddefwyr cyn i'w manylion personol gael eu rhannu ar-lein. Gallai natur barhaol y wybodaeth ar-lein hon gynyddu'r risg i rai dan ddeunaw oed yn sylweddol, a dylai'r BBC rhoi ystyriaeth i hyn.

2.10 Yn Adran Dau, wrth weithredu safonau a dderbynnir yn gyffredinol i ddeunydd ar-lein i roi digon o amddiffyniad i'r cyhoedd rhag deunydd a allai achosi tramgwydd, un o ystyron "cyd-destun" yw "am ba hyd y bydd y deunydd ar gael". Felly, mae'r ffaith y gallai'r deunydd ar-lein fod ar gael yn barhaol yn ffactor a fyddai'n berthnasol wrth asesu'r amser sydd wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r deunydd ar-lein am y tro cyntaf.

2.11 Nid yw'r rhestr enghreifftiau hon yn rhestr gyflawn, a gall natur barhaol deunydd ar-lein fod yn berthnasol i unrhyw un o reolau neu feysydd y Cod.

Dolenni trydydd parti

2.12 Rydym yn cydnabod y gall y BBC gynnwys dolenni i wefannau neu wasanaethau ar-lein allanol sy'n cael eu rhedeg gan drydydd partïon fel rhan o'i deunydd ar-lein. Rydym hefyd yn cydnabod y gall hyn fod yn ffordd ddilys o ddarparu gwybodaeth, ffynonellau a safbwyntiau ychwanegol. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth gynnwys cysylltiadau trydydd parti.

2.13 Yn gyffredinol, nid yw cynnwys dolenni trydydd parti at ddeunydd allanol gan y BBC yn awgrymu bod y BBC yn ysgwyddo cyfrifoldeb golygyddol dros y cynnwys sydd ar gael ar wefannau neu wasanaethau allanol. Nid oes disgwyl i'r BBC oruchwylio hyn lle nad oes ganddi'r rheolaeth berthnasol.

2.14 Fodd bynnag, mae cynnwys dolenni trydydd parti ar wasanaethau ar-lein y BBC o fewn rheolaeth olygyddol y BBC ac, o'r herwydd, mae'n benderfyniad golygyddol. Byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC, mewn amgylchiadau o'r fath, ystyried natur a phwrpas y ddolen a'r math o ddeunydd y gallai'r gynulleidfa ddod ar ei draws wrth ddilyn dolen i wefannau allanol.

2.15 Byddai ein hasesiad yn ystyried a yw'r BBC wedi rhoi lefel briodol o ystyriaeth i elfennau fel pwysigrwydd cymharol dolen benodol, pa wybodaeth allanol y mae'r BBC yn dibynnu arni drwy'r ddolen, ac a oes unrhyw risgiau y gellir eu rhagweld i'r gynulleidfa o ganlyniad i ddilyn y ddolen at ddeunydd allanol.

Cynnwys y BBC ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol

2.16 Mae'r BBC yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Cod mewn perthynas â chynnwys ar lwyfannau trydydd parti y mae ganddi reolaeth olygyddol drostynt. Fodd bynnag, mae Ofcom yn cydnabod nad yw'r BBC, mewn llawer o achosion, yn debygol o fod â rheolaeth uniongyrchol dros rai nodweddion a allai bennu sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â deunydd ar-lein y BBC ar y llwyfannau hynny a'r hyn maent yn ymgysylltu ag ef. Ni fyddem

yn ystyried y byddai'r BBC yn atebol am ddosbarthu cynnwys sydd y tu hwnt i'w rheolaeth ar lwyfannau trydydd parti.

2.17 Byddai Ofcom fel arfer yn disgwyl i'r canlynol fod yn enghreifftiau o nodweddion o'r fath sydd y tu hwnt i reolaeth y BBC:

- telerau gwasanaeth neu ganllawiau cymunedol;
- systemau cymedroli cynnwys;
- systemau personoli ac argymell;
- trefniadau sicrhau oedran; a/neu
- pan fo defnyddwyr llwyfan trydydd parti yn rhannu deunydd ar-lein y BBC ymlaen.

2.18 Os yw algorithmau unrhyw lwyfan yn argymell deunydd ar-lein y BBC i ddefnyddwyr ar ei wasanaeth, nid yw hyn yn golygu ein bod yn credu y dylai'r BBC ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ei ledaeniad ehangach ar draws y llwyfan. Yn yr un modd, ni fyddai Ofcom yn ystyried bod nodweddion dyluniad a swyddogaethedd penodol y llwyfan, a allai effeithio ar brofiad y gynulleidfa (ee awtochwarae), yn elfen y dylai'r BBC fod yn gyfrifol amdani.

2.19 Felly, rydym yn gwahaniaethu rhwng yr elfennau hynny sydd o fewn rheolaeth resymol y BBC a'r meysydd hynny sydd o dan reolaeth y llwyfan trydydd parti y mae'r BBC yn postio deunydd ar-lein arno.

2.20 Er efallai nad oes gan y BBC reolaeth lawn dros bolisïau, algorithmau na nodweddion dylunio llwyfannau trydydd parti, rydym o'r farn bod gan y BBC gyfrifoldeb golygyddol dros y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi a bod ganddi, yn debygol, rywfaint o reolaeth dros sut mae defnyddwyr yn ymgysylltu â'r cynnwys, er enghraifft, drwy gymedroli sylwadau sy'n gysylltiedig â phostiadau'r BBC.

2.21 Byddai Ofcom yn ystyried bod y rhestr anghyflawn ganlynol o ffactorau yn dangos lefel sylweddol o reolaeth olygyddol i'r BBC mewn perthynas â deunyddiau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar-lein:

- y dewis golygyddol i sefydlu a gweithredu cyfrif;
- penderfyniadau golygyddol i gyhoeddi postiadau ac ail-bostio cynnwys;
- y ffordd mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno ar gyfryngau cymdeithasol (e.e. capsiwn pennawd, fideo/delweddau llonydd a ddewisir); a/neu
- benderfyniadau ynghylch cymedroli sylwadau am bostiad.

2.22 Disgwylir i'r BBC sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r risgiau hysbys a geir drwy unrhyw lwyfannau penodol y mae ganddi gyfrifon arnynt ac y mae'n cyhoeddi ei deunydd arnynt. Os yw'r risgiau yn rhesymol ragweladwy, disgwylir i'r BBC ystyried y ffordd orau iddi liniaru'r cyfryw risgiau wrth benderfynu postio deunydd ar-lein ar lwyfannau trydydd parti.

2.23 Ymysg y ffactorau perthnasol y dylai'r BBC eu hystyried o bosibl y mae natur y deunydd sy'n cael ei bostio neu ei ail-bostio (gan gynnwys ei fformat, hyd neu barhad) a sut mae'r deunydd yn cael ei gyflwyno (e.e. cynnwys wedi'i glipio).

Cysondeb ar draws dyfeisiau a llwyfannau

2.24 Rydym yn ymwybodol bod cynulleidfaoedd yn cael gafael ar ddeunydd ar-lein y BBC ar wasanaethau ar-lein y BBC drwy amrywiaeth eang o ddyfeisiau, fel setiau teledu clyfar, ffonau symudol, dyfeisiau tabled, porwyr, gyda gwahanol ddefnyddwyr yn aml yn edrych ar gynnwys mewn amrywiol ffyrdd ar yr un aelwyd.

2.25 Wrth weithredu'r Cod a darparu mesurau diogelu i'w chynulleidfaoedd, byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC sicrhau cysondeb ar draws gwahanol ddyfeisiau a llwyfannau sy'n dangos yr un cynnwys.

Adran Un: Diogelu pobl ifanc dan ddeunaw

3.1 Mae'r adran hon o'r Canllawiau wedi'i darparu i helpu'r BBC i ddehongli a gweithredu Adran Un ("Diogelu pobl ifanc dan ddeunaw") y Cod. Dylid darllen Adran Un ac Adran Dau y Cod (a'r Canllawiau sy'n cyd-fynd â nhw) gyda'i gilydd, gan fod Adran Dau hefyd yn gweithredu i ddiogelu pobl ifanc dan ddeunaw.

3.2 Amcan safonau perthnasol yr adran hon yw sicrhau bod pobl ifanc dan ddeunaw yn cael eu diogelu. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn dwy reol gyffredinol arfaethedig yn Adran Un o'r Cod sy'n mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:

i) diogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed rhag deunydd ar-lein a allai amharu'n ddifrifol ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol; a
ii) chymryd pob cam rhesymol a phob cam priodol i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd anaddas ar-lein.

Rheol 1.1 Rhaid i ddeunydd a allai gael effaith niweidiol ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol, neu foesegol pobl ifanc dan ddeunaw beidio â chael ei gynnwys yn Neunydd Ar-lein Cyhoeddus DU y BBC ("deunydd ar-lein").

3.3 Dylai'r BBC sylwi, ac ystyried effaith waharddol y rheol hon, yr anelir Rheol 1.1 at ddeunyddiau niweidiol o'r math mwyaf eithriadol i bobl ifanc dan ddeunaw (e.e. deunydd pornograffig). Ar gyfer mathau eraill o ddeunydd a allai fod yn niweidiol i rai dan ddeunaw oed ar wahanol oedrannau, byddai Rheol 1.2 (isod) fel arfer yn weithredol.

Rheol 1.2 Wrth ddarparu deunydd ar-lein, rhaid i'r BBC gymryd pob cam rhesymol, gan gynnwys rhoi mesurau priodol ar waith, i ddiogelu pobl ifanc dan ddeunaw rhag deunydd sy'n anaddas iddynt.

3.4 Mae'r rheol gyffredinol hon yn darparu mesurau diogelu yn seiliedig ar fod y BBC yn gweithredu mewn ffordd sy'n oed-briodol ac sy'n diogelu pobl ifanc dan ddeunaw.[1] Mae'r rheol hon yn bodoli i fynnu bod y BBC yn defnyddio "pob cam rhesymol" (sy'n cynnwys ei chrebwyll golygyddol a'i phrosesau curadu) gan gynnwys "mesurau priodol" (mae enghreifftiau o'r rhain i'w gweld yn y Cod).

3.5 Yn wahanol i deledu neu radio, nid yw'r trothwy a'r gofynion amserlennu priodol yn berthnasol i'r amgylchedd ar-lein, gan ei fod yn aflinol ac wedi'i bersonoli ar gyfer y gynulleidfa. Felly, defnyddio mesurau priodol i amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw oed mewn gwahanol grwpiau oedran yw'r prif adnodd sydd ar gael i'r BBC i helpu i sicrhau nad ydynt yn dod ar draws deunydd a allai fod yn anaddas i bobl ifanc dan ddeunaw.

3.6 Mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC dargedu mesurau priodol yn gymesur ar draws ystod o grwpiau oedran gwahanol er mwyn rhoi i rai dan ddeunaw sydd ar-lein amddiffyniad sy'n gyfartal â'r safonau y mae Ofcom yn eu mynnu gan wasanaethau darlledu ac ar-alw y BBC.

[1] Diffinnir plant fel unigolion dan bymtheg oed yn y Cod Darlledu ac mae'r trothwy 9pm ar y teledu yn weithredol i'w diogelu rhag deunydd anaddas drwy amserlennu priodol. Fodd bynnag, yn wahanol i ddarlledu, ni chyfeirir yn benodol at "blant" mewn perthynas â'r Cod (gweler paragraff 1.40 uchod am y rhesymau dros hyn). Ar gyfer deunydd ar-lein, mae Ofcom yn cyfeirio yn lle hynny at "bobl ifanc dan ddeunaw" neu "rai dan ddeunaw oed".


3.7 Rydym o'r farn bod labelu cynnwys, rhybuddion, canllawiau a graddfeydd oed yn fesurau arbennig o bwysig yn amgylchedd ar-lein y BBC. Nid oes un ateb sy'n addas i bawb i ddiogelu rhai dan ddeunaw oed gan nad ydynt yn grŵp unffurf. Mae gwendidau, anghenion a disgwyliadau pobl ifanc dan ddeunaw oed ar wahanol gamau eu datblygiad yn amrywio'n fawr ac nid oes un mesur sy'n gallu rhoi sylw i sensitifrwydd pob unigolyn sydd dan ddeunaw oed ar gyfer pob math o gynnwys ar-lein.

3.8 Gall y risgiau i rai dan ddeunaw oed oddi wrth ddeunydd a allai fod yn niweidiol fod yn wahanol yn dibynnu a ydynt yn blant ifanc, yn bobl ifanc neu'n bobl ifanc yn eu harddegau iau neu eu harddegau hŷn. Felly, dylai'r BBC gofio y gallai deunydd a allai fod yn dderbyniol i blentyn dwy ar bymtheg oed fod angen mesurau cryfach ar gyfer plant iau.

3.9 Mae'r Cod yn nodi rhestr anghyflawn o ffactorau i helpu'r BBC i farnu pa mor briodol yw'r mesurau. Wrth ystyried a yw mesur penodol yn briodol ac a oes modd ei ddefnyddio'n gymesur i ddiogelu pobl ifanc dan ddeunaw, dylai'r BBC ystyried natur y cynnwys a'r risg y gallai ei hachosi.

3.10 I helpu gyda hyn, mae Ffigur 1 isod yn dangos hierarchaeth o fesurau wedi'u sgorio yn nhrefn pa mor gyfyngol ac ymyrrol ydynt.

Ffigur 1: Hierarchaeth o fesurau (rhestr anghyflawn)



3.11 Rydym yn cydnabod y bydd priodoldeb y mesurau y mae'r BBC yn dewis eu mabwysiadu, os o gwbl, yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd ystyriaethau gwahanol yn berthnasol yn dibynnu ar natur y cynnwys; er enghraifft, mewn perthynas â chynnwys newyddion a materion cyfoes sy'n cael sylw isod.

Newyddion a materion cyfoes a diogelu rhai dan ddeunaw oed

3.12 Mae'r egwyddor y dylid diogelu pobl ifanc dan ddeunaw yn adlewyrchu amcan sylfaenol y safonau, sy'n berthnasol ni waeth pa fath penodol o ddeunydd sydd dan sylw. Felly, dylai'r BBC bob amser ystyried y ffactorau a nodir yn y Cod sy'n ymwneud â pha mor briodol yw'r mesurau wrth wneud penderfyniadau golygyddol am newyddion a materion cyfoes. Mae'r rhain yn cynnwys natur y deunydd a'r risg bosibl i rai dan ddeunaw oed, disgwyliad tebygol rhieni a gofalwyr, a'r cysylltiad tebygol â chynnwys mewn perthynas ag ystod oedran defnyddwyr tebygol.

3.13 Rydym yn disgwyl i'r BBC ystyried pryd a sut i ddefnyddio labeli a/neu fesurau eraill i gefnogi ei chynulleidfa ar-lein, a gwneud hynny mewn ffordd gynhwysol a phriodol, yn union fel y gwna wrth wneud penderfyniadau golygyddol ynghylch priodoldeb yr allbwn newyddion y mae'n ei ddarlledu ar draws amserlenni teledu a radio llinol.

3.14 Serch hynny, mae Ofcom yn cydnabod bod darparu newyddion a materion cyfoes er budd y cyhoedd yn bwysig i gynulleidfaoedd o bob oed. Mae hwn yn gyd-destun perthnasol wrth ystyried cynnwys newyddion sy'n peri gofid ac yn heriol, ac a yw mesurau a allai fod

yn briodol mewn cyd-destunau eraill yn angenrheidiol ac yn gymesur ar gyfer newyddion a materion cyfoes.

3.15 Felly, mae p'un a fyddai rhybudd cynnwys i hysbysu rhai dan ddeunaw oed, neu eu rhieni neu'u gofalwyr, yn briodol mewn amgylchiadau penodol yn dibynnu ar y ffactorau perthnasol dan sylw. Byddai Ofcom yn ystyried ffactorau o'r fath wrth ystyried natur achos unigol a'i gyd-destun.

Deunydd sy'n anaddas i rai dan ddeunaw oed

3.16 Mae gan wahanol grwpiau oedran ar draws pobl ifanc dan ddeunaw oddefgarwch, agweddau ac anghenion datblygu gwahanol ar draws pob cam o ddatblygiad oedran. Wrth ystyried a yw deunydd yn addas ai peidio ar gyfer rhai dan ddeunaw oed, dylai'r BBC weithredu mewn ffordd sy'n ystyried priodoldeb oedran y deunydd.

3.17 Er mwyn helpu'r BBC i ddeall pa fathau o faterion mewn deunydd y gellid eu hystyried yn anaddas i rai dan ddeunaw oed mewn gwahanol grwpiau oedran, isod ceir rhestr anghyflawn o enghreifftiau o feysydd pwnc y gallent fod angen mesurau diogelu penodol:

Enghreifftiau o ddeunydd sy'n anaddas i rai dan ddeunaw oed

- Deunydd rhywiol a/neu noethni
- Cyffuriau, ysmygu ac alcohol
- Trais, manylion anafiadau neu ymddygiad peryglus
- Deunydd sy'n codi ofn neu sy'n peri gofid
- Iaith dramgwyddus
- Iaith neu ymddygiad ymosodol neu wahaniaethol
- Deunydd sy'n canolbwyntio ar wendidau e.e. anhwylderau bwyta, cyflyrau iechyd meddwl
- Unrhyw ddeunydd a allai fod yn amhriodol ar gyfer grwpiau oedran penodol, yn enwedig plant ifanc.

Ni ddylid cymryd bod yr enghreifftiau hyn yn awgrymu bod Ofcom o'r farn na ddylai pobl ifanc dan ddeunaw oed allu dod ar draws deunydd sy'n cynnwys y materion hyn. Wrth weithredu Rheol 1.2, bydd Ofcom yn asesu a yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i ystyried priodoldeb oedran deunydd ar sail ei addasrwydd ar gyfer pobl ifanc dan ddeunaw oed mewn gwahanol grwpiau oedran.

Lles, hawliau ac urddas rhai dan ddeunaw oed

3.18 Nod Rheolau 1.3 a 1.4 y Cod ydy diogelu lles a hawliau cyfreithiol rhai dan ddeunaw oed wrth roi sylw i droseddau rhywiol neu droseddau eraill yn y DU, yn enwedig mewn perthynas â'r posibilrwydd o'u hadnabod yn ystod achosion llys neu ymchwiliadau cyn treial.

3.19 Wrth weithredu'r rheolau hyn, byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried y ffordd y mae deunydd ar-lein yn cael ei gyflwyno, y ffordd mae'r gynulleidfa'n dod ar draws y deunydd hwnnw a sut gallai'r ystyriaethau hyn waethygu unrhyw risgiau posibl i rai dan ddeunaw oed. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â gwybodaeth am bobl ifanc dan ddeunaw oed a allai fodoli ar draws gwahanol wasanaethau a llwyfannau'r BBC sy'n cynnwys deunydd ar-lein. Mae Canllawiau Penodol yn y cyswllt hwn wedi'u nodi'n gynharach yn y ddogfen hon dan yr adran ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein.

Rheol 1.5 Rhaid gofalu'n briodol am les ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu'n cael eu cynnwys fel arall mewn deunyddiau ar-lein. Rhaid gwneud hyn heb ystyried unrhyw ganiatâd a roddwyd gan yr un sy'n cymryd rhan neu gan riant, gwarcheidwad neu gan unigolyn arall sydd dros ddeunaw oed yn lle rhiant.

Rheoli 1.6 Rhaid peidio ag achosi gofid na phryder diangen i bobl dan ddeunaw oed drwy eu cynnwys mewn deunydd ar-lein neu drwy gyhoeddi'r deunydd ar-lein.

3.20 Mae Adran Un y Cod Darlledu yn disgrifio rheolau cyfatebol (Rheolau 1.28 ac 1.29) ar les ac urddas cyfranogwyr dan ddeunaw oed mewn deunydd a ddarlledir. Mae nodiadau canllaw Ofcom ar gyfer y rheolau dan Adran Un y Cod Darlledu yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar gysyniadau fel 'gofal dyladwy' yn ogystal ag argymhellion ymarferol ar brosesau cynhyrchu sy'n cynnwys pobl ifanc dan ddeunaw oed. Dylai'r BBC gyfeirio at y nodiadau canllaw hynny i'w chynorthwyo i roi'r rheolau hyn ar waith.

Rheol 1.7 Rhaid i wobrau a fwriedir ar gyfer plant fod yn addas i ystod oedran y gynulleidfa yr anelir ati a'r cyfranogwyr.

3.21 Wrth weithredu'r rheol hon, byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC ystyried priodoldeb y gwobrau a gynigir i rai dan ddeunaw ac a oes pobl ifanc dan ddeunaw, sydd wedi mewngofnodi i'r llwyfannau a'r gwasanaethau a gwmpesir gan y Cod ar gyfrifon ar sail oedran ai peidio, yn dod i gysylltiad â'r deunydd.

Adran Dau: Niwed a thramgwydd

4.1 Darperir yr adran hon o'r Canllawiau i helpu'r BBC i ddehongli a gweithredu Adran Un ("Niwed a Thramgwydd") o'r Cod.

Rheol 2.1 Rhaid gweithredu safonau a dderbynnir yn gyffredinol gyda deunydd ar-lein er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus.

4.2 Mae Rheol 2.1 yn mynnu bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu gweithredu gyda deunydd ar-lein er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus. Rheol gyffredinol yw hon, ac mae'n cydnabod y bydd y cysyniad o safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn newid dros amser ac yn dibynnu ar y cyd-destun. Gall y rheol hon fod yn berthnasol i unrhyw fath o ddeunydd a allai fod yn niweidiol a/neu'n dramgwyddus, p'un a gyfeirir at y math o ddeunydd mewn rheol benodol yn y Cod ai peidio.

4.3 Mae defnyddio mesurau i liniaru risgiau deunydd a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus yn berthnasol iawn yn yr amgylchedd ar-lein (gweler Adran Un: Diogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed), yn enwedig defnyddio rhybuddion cynnwys neu labeli mewn ffordd gymesur i dynnu sylw cynulleidfaoedd at gynnwys sensitif.

Rheol 2.2 Rhaid i ddeunydd ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol beidio â chamarwain y gynulleidfa'n sylweddol. *(Nodyn i Reol 2.2: Mae newyddion yn cael ei reoleiddio dan Adran Pump o'r Cod)*

4.4 Mae Rheol 2.2 yn mynnu nad yw deunydd ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol yn camarwain y gynulleidfa'n sylweddol.

4.5 Er ei bod yn un o'r gofynion sylfaenol na ddylai cynulleidfaoedd gael eu camarwain wrth bortreadu materion ffeithiol, dim ond mewn cynnwys Newyddion y mae Ofcom yn rheoleiddio cywirdeb ar ei ben ei hun (gweler Adran Pump: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy). Serch hynny, mae'n rhaid i Ofcom warchod rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, ac mae'n bosibl y gallai niwed a/neu dramgwydd gwirioneddol neu bosibl ddeillio o ddeunydd camarweiniol mewn perthynas â chyflwyno materion ffeithiol. Bwriedir y rheol hon felly i ddelio â chynnwys sy'n **camarwain y gynulleidfa yn sylweddol fel bod hynny'n achosi niwed neu dramgwydd.**

4.6 Ni fwriedir i Reol 2.2 ddelio ag anghywirdeb mewn cynnwys nad yw'n newyddion. Ni fydd cwynion sy'n ymwneud ag anghywirdeb yn unig, yn hytrach nag â niwed neu dramgwydd, yn cael eu hystyried.

4.7 Mae p'un a yw rhaglen neu eitem yn "sylweddol" gamarweiniol yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel y cyd-destun, y dull golygyddol a ddefnyddir, natur y deunydd camarweiniol ac, yn anad dim, beth allai'r effaith bosibl fod neu ba niwed neu dramgwydd gwirioneddol sydd wedi digwydd. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i Newyddion, sy'n cael ei reoleiddio o dan Adran Pump o'r Cod.

4.8 Gan fod y rheol wedi'i fframio o amgylch "deunydd ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol", byddai hyn yn cynnwys eitem ar-lein (e.e. erthygl newyddion neu bost ar y cyfryngau cymdeithasol), yn ogystal â deunydd neu bortread cysylltiedig ehangach. Mae'n debyg y byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried y ffordd mae'r gynulleidfa'n dod ar draws

cynnwys, fel sy'n cael ei egluro'n gynharach yn y ddogfen hon dan yr adran ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein.

4.9 Pan fo'n briodol, dylai cynulleidfaoedd sy'n ymgysylltu â deunydd ar-lein y BBC allu elwa o wybodaeth a labeli priodol ynghylch y cynnwys er mwyn deall ei ystyr a'i gyd-destun priodol. Gall y mesur fod yn arbennig o ddefnyddiol i roi cynnwys ffeithiol mewn cyd-destun gyda gwybodaeth a allai liniaru'r risg o gamarwain y gynulleidfa'n sylweddol ac achosi niwed a/neu dramgwydd o bosibl.

Rheol 2.3 Wrth weithredu safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i'r BBC sicrhau bod y cyd-destun yn cyfiawnhau unrhyw ddeunydd a allai achosi tramgwydd (gweler ystyr "cyd-destun" isod). Dylid hefyd gyhoeddi gwybodaeth briodol os byddai hynny o gymorth i osgoi neu leihau'r tramgwydd.

4.10 Mae Rheol 2.3 yn datgan fod yn rhaid i'r BBC sicrhau, wrth weithredu safonau a dderbynnir yn gyffredinol, fod deunydd a allai achosi tramgwydd yn cael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun. Ar ôl darparu enghreifftiau o ddeunydd a allai beri tramgwydd, mae'r Cod yn nodi rhestr anghyflawn o ffactorau o dan ystyr cyd-destun.

4.11 Bydd y ffactorau cyd-destunol hyn yn berthnasol i sicrhau bod modd cyfiawnhau deunydd a allai achosi tramgwydd. Mae'r materion hyn yn ymwneud yn fras â fformat, natur a'r math o ddeunydd ar-lein. Ymhlith pethau eraill, gall hyn gynnwys: erthyglau newyddiadurol, clipiau fideo, blogiau byw, hysbysiadau a rhybuddion, penawdau, podlediadau, ffrydiau byw. Bydd hefyd yn bwysig ystyried profiad y gynulleidfa o'r deunydd.

Ystyr cyd-destun o safbwynt safonau a dderbynnir yn gyffredinol a thramgwydd ar gyfer deunydd ar-lein y BBC

4.12 Pan fydd y BBC yn ystyried ffactorau cyd-destunol penodol, mae'n bwysig bod ei ffordd o feddwl wedi'i wreiddio yn natur benodol yr amgylchedd ar-lein a'r ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â deunydd ar-lein. Gall hyn fod yn wahanol i'r ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â rhaglenni ac amserlenni llinol yn yr amgylchedd darlledu.

4.13 Mae'r mathau amrywiol o gyfryngau sy'n ddeunydd ar-lein yn cynnwys testun, fideo, sain, clipiau, postiadau, tudalennau byw ac ati. Felly, dylai ffactorau cyd-destunol gynnwys amgylchedd cynnwys amlfodd sy'n galluogi profiad defnyddiwr gwahanol i'r ffyrdd traddodiadol o ddefnyddio'r teledu neu'r radio.

4.14 Byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC ystyried natur ei nodweddion ar-lein a'u heffaith ar gynulleidfaoedd. Er enghraifft, gall elfennau fel swyddogaethau chwilio, rhannu cymdeithasol, ffrydiau awtochwarae, rhyngwynebau apiau, dolenni allanol, darnau fel clipiau, mân-luniau, clipiau wedi'u hymgorffori, golygiadau ffurf fer, negeseuon cymdeithasol a/neu addasiadau sy'n benodol i'r llwyfan i gyd ddylanwadu ar y profiad a'r ffyrdd y mae deunydd yn effeithio ar ddefnyddwyr unigol.

4.15 Wrth asesu cydymffurfiad â'r rheol hon, gall Ofcom hefyd ystyried y ffaith y gall aelodau o'r gynulleidfa ddod ar draws deunydd ar-lein yn annisgwyl, ac y gall deunydd ar-lein ddal i fod ar gael am gyfnod amhenodol. Mae'r graddau y mae'r BBC wedi ystyried y ffactorau hyn wrth gyhoeddi'r deunydd ar-lein yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol.

4.16 Felly, rydym yn credu y bydd yn bwysig i'r BBC ystyried yr ystod lawn o ffactorau cyd-destunol a allai fod yn berthnasol i ddadansoddiad o niwed neu dramgwydd yn yr amgylchedd ar-lein.

4.17 Wrth asesu effaith bosibl deunydd sy'n cael ei gyflwyno drwy ddefnyddio penawdau a mân-luniau, neu sy'n cael ei ategu gan ddolenni i wefannau allanol trydydd parti, dylai'r BBC gyfeirio at adran gynharach y ddogfen hon ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein am enghreifftiau.

Trais, ymddygiad peryglus, hunanladdiad a hunan-niwed

Rheol 2.4 Rhaid i'r BBC beidio â chynnwys deunydd sydd, o ystyried y cyd-destun, yn cymeradwyo neu'n 'gogoneddu' ymddygiad treisgar, peryglus neu dra wrthgymdeithasol ac sy'n debygol o gymell eraill i efelychu ymddygiad o'r fath.

Rheol 2.5 Rhaid peidio â chynnwys dulliau hunanladdiad a hunan-niwed mewn deunydd ar-lein oni bai fod cyfiawnhad golygyddol drostynt a bod y cyd-destun hefyd yn eu cyfiawnhau.

4.18 Mae Rheol 2.4 yn delio â thrais ac ymddygiad peryglus, a Rheol 2.5 â hunanladdiad a hunan-niweidio mewn deunydd ar-lein.

4.19 Mae'r risg o niwed yn y meysydd hyn i gynulleidfaoedd ar-lein, yn enwedig y defnyddwyr mwyaf agored i niwed, yn uwch nag ar gyfer rhannau eraill y Cod. Felly, dylai'r BBC roi ystyriaeth yn benodol i'r agweddau hynny ar y profiad ar-lein a allai waethygu'r risg i gynulleidfaoedd.

4.20 Mae Rheol 2.4 yn cael effaith waharddol, yn yr ystyr na ddylai deunydd sy'n esgusodi neu'n gogoneddu trais neu ymddygiad peryglus ac sy'n cario risg iddo gael ei ddynwared gael ei gynnwys mewn deunydd ar-lein. Mae hyn yn gofyn am grebwyll golygyddol a phan ganfyddir bod deunydd o'r fath yn bodoli, dylai'r BBC weithredu'n gyflym i'w dynnu i lawr.

4.21 Bwriad tebyg sydd i Reol 2.5. Pan na cheir cyfiawnhad cyd-destunol dros ddangos dulliau hunan-niweidio a hunanladdiad, ni ddylai'r BBC eu cynnwys yn ei deunydd ar-lein. Y gwahaniaeth gyda'r rheol hon yw y gellid cael amgylchiadau lle ceir cyfiawnhad cyd-destunol dros gynnwys dulliau o hunan-niweidio a hunanladdiad, e.e. erthygl newyddion sy'n rhoi sylw i faterion hunanladdiad neu hunan-niweidio. Mewn achosion o'r fath, byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC fod yn ofalus iawn gyda'r math o iaith, delweddau a seiniau sy'n cael eu defnyddio, gan osgoi cynnwys gwybodaeth gyfarwyddol neu newydd ar ddulliau a allai waethygu'r risg, yn ogystal ag ystyried defnyddio rhybuddion neu wybodaeth briodol i dynnu sylw cynulleidfaoedd at y pwnc.

4.22 Mae'r ffaith y gall deunydd ar-lein fod ar gael yn barhaol, ac y gall cynulleidfaoedd felly ei ailddarganfod, yn arbennig o arwyddocaol yng nghyd-destun cynnwys am hunanladdiad a hunan-niweidio. O'r herwydd, bydd hwn yn ffactor pwysig i'r BBC ei ystyried yn ei ddull o ddiogelu cynulleidfaoedd.

4.23 Mae angen gofal arbennig hefyd mewn perthynas â chynnwys dolenni trydydd parti, penawdau, mân-luniau, cynnwys wedi'i glipio a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r BBC gyfeirio at yr adran gynharach yn y ddogfen hon ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein i gael arweiniad penodol yn hyn o beth.

Rheolau eraill

Rheol 2.6 Rhaid i'r BBC gymryd gofal i gadw lefel isel o risg i wylwyr sydd ag epilepsi ffotosensitif. Os gall gwasanaethau ddangos bod modd cyfiawnhau yn olygyddol i gynnwys patrymau a/neu oleuadau'n fflachio, dylai gwylwyr gael gwybodaeth ddigonol ymlaen llaw am hyn.

4.24 Rheol ragofalus yw hon i helpu i ddiogelu'r rheini sydd ag epilepsi ffotosensitif ("PSE"). Byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC fod yn ymwybodol na fydd y profion ar gyfer delweddau sy'n fflachio sy'n berthnasol ym maes darlledu, oherwydd gwahaniaethau technolegol, o bosibl yn rhoi gwarchodaeth rhag PSE i rai sy'n defnyddio deunydd ar-lein ar draws amrywiaeth o wahanol ddulliau arddangos ac amgylcheddau gwylio.

4.25 Ceir safonau rhyngwladol ynghylch PSE yn benodol ar gyfer cynnwys ar-lein[2], ac fe allai fod yn ddefnyddiol i'r BBC eu hystyried wrth geisio gweithredu'r rheol hon gyda deunydd ar-lein.

Rheol 2.7 Rhaid i gystadlaethau a phleidleisiau ar-lein gael eu cynnal yn deg.

Rheol 2.8 Rhaid i'r BBC lunio rheolau ar gyfer pleidlais neu gystadleuaeth ar-lein. Rhaid i'r rheolau hyn fod yn glir a rhaid rhoi gwybod amdanynt mewn modd priodol. Yn benodol, rhaid datgan yr amodau pwysig a all effeithio ar benderfyniad aelodau o'r gynulleidfa i gyfranogi ar yr adeg y darlledir gwahoddiad i gyfrannu.

4.26 Mae'r rheolau hyn yn ymdrin â'r angen i gynnal cystadlaethau a phleidleisiau yn neunydd ar-lein y BBC yn deg ac yn unol â'r rheolau sefydledig. Dylai'r BBC sicrhau tryloywder a chynhwysiant yn y ffordd y caiff cystadlaethau a phleidleisiau eu gweithredu a'u cyflwyno i'w chynulleidfaoedd ar-lein.

4.27 Byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC ystyried sut mae unrhyw dechnolegau neu adnoddau sy'n caniatáu i gynulleidfaoedd ar-lein ymgysylltu'n rhyngweithiol â chystadlaethau neu ymarferiadau pleidleisio yn cefnogi nodau'r rheolau hyn.

4.28 Yn olaf, byddem yn disgwyl i'r BBC sicrhau, cyn belled ag y bo modd, gysondeb o ran tegwch a hygyrchedd cystadlaethau a phleidleisiau ar draws gwahanol ddyfeisiau a llwyfannau.

[2] Canllawiau hygyrchedd Consortiwm y We Fyd-eang (W3C) (Canllaw 2.3 Ffitiau ac Adweithiau Corfforol)

Adran Tri: Trosedd, anhrefn, casineb a chamdriniaeth

5.1 Darperir yr adran hon o'r Canllawiau i helpu'r BBC i ddehongli a gweithredu Adran Tri ("Trosedd, anhrefn, casineb a chamdriniaeth") o'r Cod.

5.2 Nid yw'r adran hon o'r Cod yn gwahardd pobl neu sefydliadau penodol rhag cael eu cynnwys yn neunyddiau ar-lein y BBC dim ond oherwydd bod gan eu barn neu eu gweithredoedd y potensial i beri tramgwydd. Byddai gwneud hynny yn gyfyngiad anghymesur ar hawl y BBC i ryddid mynegiant a hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth a syniadau.

5.3 Mae Ofcom o'r farn y dylai'r BBC allu adrodd ar-lein, yn enwedig yn ei chynnwys newyddion, ar grwpiau terfysgol sy'n peri bygythiadau posibl yn rhyngwladol neu'n ddomestig, gan fod hyn yn amlwg er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae Ofcom hefyd o'r farn bod yn rhaid i'r BBC bob amser sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Cod drwy herio a darparu cyd-destun priodol ar gyfer cynnwys lle rhoddir sylw i safbwyntiau unrhyw grwpiau o'r fath.

Rheol 3.1 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n debygol o annog neu gymell comisiynu troseddu neu o arwain at anhrefn mewn deunydd ar-lein.

5.4 Mae'r nodiadau canllaw ar gyfer Adran 3 o'r Cod Darlledu yn disgrifio achosion sy'n defnyddio'r rheol ym maes darlledu sy'n cyfateb i Reol 3.1 fel rhai sydd â "risg uchel o niwed", a lle gallai torri'r rheol arwain at osod cosb statudol.

5.5 Mae'r Nodiadau Canllaw ar gyfer Adran 3 y Cod Darlledu hefyd yn egluro bod Rheol 3.1 yn adlewyrchu amcan y safonau mewn statud i atal deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn rhag cael ei ddarlledu. Mae defnyddio'r gair "tebygol" yn golygu nad oes yn rhaid i Ofcom weld unrhyw gysylltiad achosol rhwng cynnwys ac unrhyw weithredoedd penodol o ymddygiad troseddol neu anhrefn.

5.6 Gan fod yr un amcan o'r safonau yn sail i Reol 3.1 y Cod, mae'r pwyntiau cyffredinol hyn yr un mor berthnasol yng nghyd-destun deunydd ar-lein y BBC.

5.7 O dan ystyr "yn debygol o annog neu gymell comisiynu troseddu neu o arwain at anhrefn," mae'r Cod yn nodi rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol.

5.8 Rydym yn cydnabod y gallai cysyniadau fel y diben golygyddol, statws neu safle unrhyw un sy'n cael sylw mewn deunydd a'r cwestiwn a ddarperir her ddigonol, fod yn ffactorau cysyniadol y gallent weithredu'n wahanol yn ymarferol i ddeunydd ar-lein nac yn yr amgylchedd darlledu.

5.9 Gallai'r amrywiad hwn fod yn fwy arwyddocaol wrth weithredu Rheoli 3.1 ag erthyglau ysgrifenedig, postiadau neu ail-bostiadau cyfryngau cymdeithasol, a hysbysiadau a rhybuddion, gan fod cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â chynnwys o'r fath mewn ffyrdd gwahanol iawn i'r ffordd maent yn ymgysylltu â rhaglenni. Mae hefyd yn berthnasol deall yr amgylchedd rhyng-gysylltiedig a phersonoledig a ddiwedderir yn aml y mae deunydd ar-lein yn bodoli arno.

5.10 Felly, wrth weithredu Rheol 3.1, disgwyliwn i'r BBC ystyried y ffyrdd y cyflwynir deunydd ar-lein a'r ffyrdd y daw cynulleidfaoedd ar ei draws pan mae'n asesu'r ffactorau cyd-

destunol hyn. Dylai'r BBC gyfeirio at yr adran gynharach yn y ddogfen hon ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein i gael arweiniad penodol yn hyn o beth.

Rheol 3.2 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n cynnwys iaith casineb mewn deunydd ar-lein ac eithrio pan mae modd cyfiawnhau hynny drwy gyd-destun.

Rheol 3.3 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n dangos unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau yn cael eu trin yn ymosodol neu'n ddifrïol mewn deunydd ar-lein ac eithrio lle mae modd cyfiawnhau hynny drwy gyd-destun. (Gweler hefyd Rheol 4.2 yn Adran 4: Crefydd)

5.11 Mae Rheol 3.2 a Rheol 3.3 yn gwahardd iaith casineb a/neu driniaeth ddifrïol neu fychanol yn neunyddiau ar-lein y BBC ac eithrio pan mae modd cyfiawnhau hynny drwy gyd-destun. Mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu amcan y safonau a nodir mewn statud sy'n mynnu bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu gweithredu i roi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus neu niweidiol[3]. Mae'r Cod yn nodi rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol allweddol i'r BBC eu hystyried wrth weithredu'r rheolau hyn.

5.12 O dan "ystyr y cyd-destun" mewn perthynas â Rheol 3.2 a Rheol 3.3, mae'r Cod yn datgan y gall ffactorau cyd-destunol allweddol gynnwys genre a chynnwys golygyddol yr eitem neu'r eitemau ar-lein y mae'r deunydd wedi'i gynnwys ynddynt, neu gyfres o eitemau a gymerir gyda'i gilydd, a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa. Mae'r Cod yn cyfeirio'n benodol at newyddion a materion cyfoes fel enghraifft o genre a chynnwys golygyddol lle mae'n debygol y ceir cyfiawnhad golygyddol dros safbwyntiau eithafol neu heriol yn unol â disgwyliadau cynulleidfaoedd, cyn belled ag y ceir cyd-destun digonol.

5.13 Mae hyn yn cydnabod y gallai budd y cyhoedd a disgwyliadau cynulleidfaoedd ynghylch y newyddion a materion cyfoes olygu bod angen cynnwys geiriau neu sylwadau a allai fod cyfystyr ag iaith casineb neu driniaeth ymosodol neu ddifrïol er mwyn deall stori neu fater. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gellir anwybyddu'r ffordd y mae'r cynnwys yn ymddangos, graddau'r risg a'r niwed neu'r tramgwydd posibl, na'r ffordd y gallai cynulleidfaoedd ddod ar ei draws. Fel y mae'r Cod hefyd yn datgan, y mwyaf yw'r risg i'r deunydd achosi niwed neu dramgwydd, y mwyaf yw'r angen am fwy o gyfiawnhad cyd-destunol.

5.14 Dylai i'r graddau y darperir her ddigonol, a natur statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd, gael eu llywio gan y ffactorau cyd-destunol a ddisgrifir ym mharagraffau 5.9 a 5.10 o dan Reol 3.1.

5.15 Gall y ffactorau cyd-destunol hyn weithredu'n wahanol yn dibynnu a ydynt yn ymwneud â ffurfiau ysgrifenedig ar ddeunydd ar-lein fel erthyglau, postiadau neu ail-bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, a hysbysiadau a rhybuddion, ynteu'n gynnwys clyweledol y gallent fod o natur debycach i raglenni. Byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried yr elfennau hyn wrth roi'r rheolau hyn ar waith.

5.16 Wrth ystyried natur y mynediad at y cynnwys, byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried a yw'n darparu'r cyd-destun llawn mewn unrhyw eitem ar-lein sy'n cael ei darparu i'r gynulleidfa. Er enghraifft, os yw'r BBC yn ceisio dibynnu ar gyfiawnhad cyd-destunol dros iaith casineb, byddai'n rhesymol ystyried pa mor hawdd neu realistig yw hi i ddefnyddiwr, a allai weld

[3] Fel y nodir yn a319(2)(f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

iaith casineb ymddangosiadol mewn clip neu wth-hysbysiad gael gafael ar yr erthygl neu raglen ddogfen lawn i gael cyd-destun.

5.17 Mae'r BBC yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ar-lein a byddem yn disgwyl iddi ystyried disgwyliadau tebygol cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r deunydd y mae gwasanaeth penodol yn ei ddarparu. Er enghraifft, mae maint a chyfansoddiad cynulleidfa ar-lein y BBC ar gyfer safle cyffredinol neu gyfrif trydydd parti yn debygol o fod yn fwy nag ar gyfer gwasanaeth arbenigol sy'n darparu ar gyfer diddordebau neu ddemograffeg fwy penodol.

5.18 Byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC bwyso a mesur yr holl ffactorau cyd-destunol allweddol perthnasol a nodir uchod wrth iddi arfer ei chrebwyll golygyddol, gan ystyried amgylchiadau pob achos.

5.19 Fel y nodwyd o dan y canllawiau ar Reol 3.1 a gydol y Canllawiau hyn, mae'r amrywiaeth eang o ffyrdd y mae cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod ar-lein yn golygu ei bod yn bwysig bod y BBC, wrth arfer ei chrebwyll golygyddol, yn ystyried nid yn unig natur y deunydd ei hun, ond hefyd brofiad y gynulleidfa ar-lein o ran sut mae'n canfod y deunydd ar draws gwahanol wasanaethau, llwyfannau a dyfeisiau.

Rheol 3.4 Rhaid peidio â darlledu disgrifiadau neu arddangosiadau o dechnegau troseddol sy'n cynnwys manylion hanfodol a allai gynnig modd i gyflawni trosedd oni bai bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny.

Rheol 3.8 Rhaid i'r BBC wneud pob ymdrech i beidio â phostio deunydd a allai beryglu bywydau neu amharu ar lwyddiant ymdrechion i ddelio ag achosion o gipio neu herwgipio.

5.20 Mae Rheol 3.4. - 3.8 yn y Cod yn ymwneud â phortreadau o droseddu ac achosion troseddol ac mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu rheolau cyfatebol yn Adran Tri o'r Cod Darlledu.

5.21 Mae Rheol 3.4 a Rheol 3.8 yn ymwneud yn benodol ag effeithiau niweidiol posibl deunydd sy'n arwain at gomisiynu trosedd neu beryglu bywydau.

5.22 Yn wahanol i raglenni traddodiadol, mae deunydd ar-lein ar gael yn gyffredinol ar draws nifer o lwyfannau a dyfeisiau, gan ehangu ei gyrhaeddiad i gynulleidfaoedd a chynyddu ei botensial i niweidio.

5.23 Felly, wrth weithredu'r rheolau hyn gyda deunydd ar-lein, rydym yn disgwyl i'r BBC ystyried, mewn achosion lle gallai natur barhaol deunydd ar-lein fod yn ffactor perthnasol, y gallai hyn waethygu'r risg i drosedd gael ei gyflawni, neu beryglu bywydau neu amharu ar lwyddiant ymdrechion i ddelio ag achosion o gipio neu herwgipio. Dylai'r BBC gyfeirio at yr adran gynharach yn y ddogfen hon ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein i gael arweiniad penodol yn hyn o beth.

Rheol 3.5 Ni chaniateir rhoi dim taliad, addewid o daliad, na thaliad mewn nwyddau i droseddwyr sydd wedi cyffesu neu a gafwyd yn euog o drosedd, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn cysylltiad â chael cyfraniad gan y troseddwr (neu unrhyw un arall) am ei drosedd(au) ef/hi wrth greu deunydd ar-lein. Yr unig eithriad yw pan fydd hynny er budd y cyhoedd.

Rheol 3.6 Tra bydd achos troseddol yn mynd rhagddo, ni chaniateir rhoi dim taliad nac addewid o daliad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw dyst neu unrhyw berson y gellir disgwyl yn rhesymol iddo gael ei alw'n dyst. Ni ddylid ychwaith awgrymu na rhoi unrhyw daliad yn ddibynnol ar ganlyniad y treial. Ni chaniateir dim ond ad-dalu

enillion a gollwyd neu wariant gwirioneddol y bu angen mynd iddo mewn cysylltiad â chael cyfraniad wrth gynhyrchu deunydd ar-lein.

5.24 Mae Rheol 3.5 yn delio â thaliadau i droseddwyr sydd wedi cyffesu neu a gafwyd yn euog ac mae Rheol 3.6 yn delio â thaliadau i dystion. Gan fod y rheolau hyn ar gyfer deunydd ar-lein yn cwmpasu materion eithaf tebyg sy'n ymwneud â thaliadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu rhaglenni a ddarlledir, dylai'r BBC gyfeirio at Adran Tri o Ganllawiau Ofcom i'r Cod Darlledu. Mae'r nodiadau Canllaw ar y Cod Darlledu yn berthnasol ac yn gyson ar gyfer deunydd ar-lein, fel y'u haddaswyd yn y Cod.

Adran Pedwar: Crefydd

6.1 Darperir yr adran hon o'r Canllawiau i helpu'r BBC i ddehongli a gweithredu Adran Pedwar ("Crefydd") o'r Cod.

6.2 Mae Rheolau 4.1, 4.2 a 4.3 yn mynnu bod y BBC yn arfer cyfrifoldeb priodol mewn deunydd crefyddol, i sicrhau nad yw safbwyntiau a chredoau crefyddol yn cael eu trin yn ddifrïol ac nad yw deunydd o'r fath yn camfanteisio'n amhriodol ar deimladau cynulleidfaoedd.

6.3 Wrth i'r BBC weithredu'r rheolau hyn, rydym yn pwysleisio bod y Cod yn diffinio mai "eitem ar-lein grefyddol" yw eitem ar-lein sy'n delio â materion crefyddol fel y pwnc canolog, neu ran sylweddol ohoni.

6.4 Mae hyn yn golygu nad yw'r adran hon o'r Cod ond yn berthnasol i eitem ar-lein sy'n cynnwys deunydd defosiynol, gweithred addoli neu fyfyrio gweddïol, ond ei bod hefyd yn berthnasol i fathau eraill o ddeunyddiau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, faterion cyfoes neu gynnwys hanes lle mae crefydd neu gred yn rhan sylweddol o'r eitem.

6.5 Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i unrhyw fath o eitem ar-lein ac yn cwmpasu triniaeth ddifrïol a chamfanteisio'n amhriodol ar deimladau cynulleidfaoedd.

6.6 Fel y nodir ar draws y Canllawiau ac yn yr adran gynharach ar Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein, gall penawdau a mân-luniau, neu ddarnau eraill o ddeunydd ar-lein, beri gofid neu dramgwyddo teimladau cynulleidfa benodol mewn ffordd y gallai'r eitem ar-lein lawnach (e.e. erthygl neu glip fideo) ei lliniaru. Dylid bod yn arbennig o ofalus gyda darnau o eitemau ar-lein, yn ogystal â chywirdeb a phriodoldeb postiadau neu ail-bostiadau'r BBC ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n eitemau crefyddol ar-lein ac a allai fod â chyrhaeddiad ehangach na deunydd ar-lein ar wefannau ac apiau'r BBC ei hun.

Rheol 4.1 Rhaid i'r BBC arfer y lefel briodol o gyfrifoldeb mewn perthynas â chynnwys ar-lein sy'n cael ei ystyried yn eitem grefyddol ar-lein.

Rheol 4.2 Rhaid peidio ag ymdrin yn ddifrïol â safbwyntiau a chredoau crefyddol y rhai sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.

6.7 Wrth gydymffurfio â Rheol 4.2, dylai'r BBC hefyd ystyried Rheol 3.3 a'r gofyn i ddeunydd sy'n trin unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau mewn ffordd ddifrïol neu dramgwyddus beidio â chael ei gynnwys mewn deunydd ar-lein ac eithrio lle gall y cyd-destun gyfiawnhau hynny. Gallai triniaeth dramgwyddus gynnwys datganiadau sy'n sarhau safbwyntiau crefyddol a safbwyntiau sy'n perthyn i grefydd neu enwad penodol, eu beirniadu'n ffyrnig neu ymosod arnynt, heb gyfiawnhad digonol gan y cyd-destun.

6.8 Bydd angen i'r BBC sicrhau bod digon o gyfiawnhad cyd-destunol yn cael ei roi pan fydd cynnwys o'r fath yn cael ei gynnwys mewn deunydd ar-lein.

Rheol 4.3 Rhaid i eitemau ar-lein crefyddol beidio â chamfanteisio yn amhriodol ar unrhyw rai o deimladau'r gynulleidfa.

6.9 Mae'r rheol yn rhoi sylw i gamfanteisio'n amhriodol ar deimladau'r gynulleidfa. Mae Canllawiau Ofcom i Adran Pedwar y Cod Darlledu yn berthnasol i ddeunydd ar-lein yn hyn o beth gan eu bod yn datgan y byddai camfanteisio amhriodol, er enghraifft, yn cynnwys camddefnyddio neu ddirmygu cred unigolyn er mwyn argyhoeddi'r person hwnnw y dylai

newid ei gredoau a chefnogi credoau'r person sy'n ei herio, ar y sail y gallai canlyniad negyddol ddigwydd os nad yw'n gwneud hynny.

6.10 Pan geir risg o gamfanteisio'n amhriodol ar deimladau'r gynulleidfa, byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC fod yn arbennig o ofalus ynghylch y ffordd mae eitem grefyddol ar-lein yn cael ei chyflwyno a'r ffyrdd mae'r gynulleidfa'n ei chanfod.

Adran Pump: Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy

7.1 Darperir yr adran hon o'r Canllawiau i helpu'r BBC i ddehongli a gweithredu Adran Pump ("Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy") o'r Cod.

7.2 Dylid darllen yr adran hon o'r Canllawiau ar y cyd ag Adran Chwech (Etholiadau a Refferenda) o'r Cod, a'r Canllawiau atodol i Adran Chwech.

7.3 Mae'r Nodiadau Canllaw ar gyfer Adran Pump y Cod Darlledu yn cynnwys esboniadau pendant o gysyniadau allweddol sy'n berthnasol i Adran Pump y Cod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn newyddion;
- cadw didueddrwydd dyladwy;
- materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol;
- materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol;
- pwysau dyladwy a safbwyntiau arwyddocaol; a
- barn bersonol a chynnwys awdurol.

7.4 Felly, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r BBC gyfeirio at y Nodiadau Canllaw ar gyfer Adran Pump o'r Cod Darlledu wrth ystyried defnyddio Adran Pump o'r Cod yn gyffredinol. Fodd bynnag, gall cymhwyso'r cysyniadau uchod fod yn wahanol mewn amgylchedd ar-lein. Mae'r Cod hefyd yn cyflwyno cysyniadau nad oes ganddynt elfennau sy'n uniongyrchol gyfatebol iddynt yn y Cod Darlledu, gan gynnwys "eitemau ar-lein" a "cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff". Mae hefyd yn addasu ystyr didueddrwydd dyladwy i gydnabod y cysyniad o "ffocws", fformat a'r math o eitem ar-lein a'r ffyrdd y mae cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod.

7.5 Yn unol â hynny, mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio egwyddorion cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn amgylchedd ar-lein ac, yn benodol, ar y canlynol:

- penderfynu beth sy'n cyfrif fel eitem ar-lein;
- penderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol;
- cynnal didueddrwydd dyladwy mewn eitem ar-lein ac ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff;
- amlygu eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol yn briodol;
- pwysigrwydd fformat, cyflwyniad a sut mae'r gynulleidfa yn ei ganfod; a
- ffactorau cyd-destunol eraill sy'n benodol i eitemau ar-lein sy'n berthnasol i gymhwyso Adran Pump.

Ystyr didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy

Mae "dyladwy" yn oleddfiad pwysig i'r cysyniad o ddidueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae "dyladwy" yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y deunydd ar-lein penodol (gweler y diffiniad o "eitem

ar-lein"). Felly nid yw "didueddrwydd dyladwy" yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser neu ffocws i pob barn, na bod yn rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl. Gall y ffordd o ddelio â didueddrwydd dyladwy amrywio yn ôl:

- natur y pwnc;
- y fformat a'r math o eitem ar-lein;
- y ffordd y mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod;
- disgwyliadau tebygol y gynulleidfa o ran y cynnwys; ac
- i ba raddau y mae'r cynnwys a'r dull gweithredu yn cael eu hamlygu i ddefnyddwyr.

7.6 Mae'r diffiniad o ddidueddrwydd dyladwy yn y Cod yn adlewyrchu'r diffiniad yn y Cod Darlledu, ond mae'n cynnwys addasiadau cyfyngedig i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd ar-lein. Fel gyda darlledu, mater golygyddol i'r BBC o hyd yw sut mae didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal, cyn belled ag y cydymffurfir â gofynion y Cod.

7.7 Mae cynnwys cyfeiriad at "ffocws", yn ogystal ag amser, yn adlewyrchu'r ffaith y gellir cyfleu pwyslais golygyddol mewn deunydd ar-lein mewn ffyrdd gwahanol i ddarlledu. Gall deunydd ar-lein roi pwyslais ar safbwyntiau neu wybodaeth benodol drwy strwythur, cynllun, amlygrwydd, fformat yr eitem neu'r ffordd y'i cyflwynir. Fodd bynnag, fel gydag amser ym maes darlledu, nid yw didueddrwydd dyladwy yn mynnu bod pob safbwynt yn cael nifer geiriau, gofod sgrin, hyd nac amlygrwydd cyfartal. Rhaid i ddidueddrwydd ddal i fod yn ddigonol neu'n briodol i destun a natur y deunydd ar-lein.

7.8 Wrth asesu a yw didueddrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal, gall Ofcom hefyd ystyried fformat y deunydd ar-lein, sut mae'n cael ei gyflwyno a sut mae cynulleidfaoedd yn debygol o'i ganfod. Mae'r ystyriaethau hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o lwyfannau, gwasanaethau a fformatau ar-lein y gellir cael gafael ar ddeunydd ar-lein y BBC drwyddynt. O ganlyniad, gall amlygrwydd a chyflwyniad safbwyntiau, a'r cyd-destun sydd ar gael i gynulleidfaoedd, fod yn berthnasol i asesiad Ofcom ynghylch a yw didueddrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal mewn eitem benodol neu ar draws cyfres o eitemau sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff.

Rheolau sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion

Rheol 5.1 Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

7.9 Gallai'r nodiadau Canllaw i Adran Pump o'r Cod Darlledu gynorthwyo'r BBC i ddeall yr egwyddorion sefydledig o safbwynt cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn newyddion.

7.10 Mae gan newyddion statws arbennig ac mae'n cael gwarchodaeth ychwanegol o dan y Cod oherwydd y rôl hanfodol mae'n ei chwarae mewn cymdeithas ddemocrataidd. Roedd pwysigrwydd cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn newyddion i genhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn sbardun pwysig y tu ôl i'r camau a gymerwyd i ymestyn

cyfrifoldebau rheoleiddio Ofcom i ddeunydd ar-lein y BBC.[4] Roedd hyn yn arbennig o wir yng ngoleuni'r cydgyfeiriad cynyddol rhwng gwasanaethau newyddion y BBC a ddarlledir ac a gyflwynir ar-lein, wrth i gynulleidfaoedd ddilyn newyddion y BBC ar-lein fwyfwy. Felly, dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy newyddion ar ba bynnag ffurf y mae'n ymddangos yn neunyddiau ar-lein y BBC.

7.11 O ystyried pwysigrwydd sylfaenol cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd mewn newyddion a'r ffaith y gall genres a thechnegau golygyddol newid yn sylweddol dros amser, nid yw'r Cod yn cynnwys diffiniad o "newyddion". Nid oedd y Senedd yn diffinio "newyddion" yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ac roedd yn amlwg y bwriadwyd iddo fod â chwmpas eang a bod yn berthnasol i "newyddion ar ba ffurf bynnag" (adran 319(8)).

7.12 Wrth ystyried a yw newyddion ar ba ffurf bynnag yn briodol gywir, byddwn yn ystyried y ffaith y gallai deunydd newyddion ar-lein barhau i fod ar gael ar ôl i ddigwyddiadau ddatblygu. Mae hyn yn golygu y gall yr oedran, parhad a'r gallu i ddiweddaru cynnwys, yn ogystal â'r dyddiad y cafodd ei bostio am y tro cyntaf, fod yn rhan o'r asesiad cyd-destunol o gywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy.

7.13 Mae ystyried a yw newyddion ar ba ffurf bynnag yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy yn gofyn am asesiad cyd-destunol llawn o'r eitem ar-lein, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Fel sy'n cael ei egluro o dan Reol 5.5, gall eitem ar-lein gynnwys nifer o elfennau cyfansoddol, gan gynnwys testun, delweddau, sain, fideo a dolenni wedi'u hymgorffori. Gall elfennau o'r fath fod yn ffactorau cyd-destunol perthnasol yn asesiad Ofcom, yn enwedig pan fyddant yn dylanwadu ar ddealltwriaeth y gynulleidfa o'r deunydd. Fodd bynnag, byddant fel arfer yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr eitem ar-lein y maent yn berthnasol iddi, yn hytrach nag ar eu pen eu hunain.

7.14 Gellir sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn newyddion, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, naill ai mewn eitem ar-lein ei hun neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff, fel yr esbonnir yn y Canllawiau i Reol 5.5. Pan fydd y BBC yn dibynnu ar gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol at y diben hwn, bydd cydymffurfio â'r gofynion amlygu yn Rheol 5.6 hefyd yn berthnasol.

7.15 Fel gyda darlledu, mater golygyddol i'r BBC o hyd yw sut mae didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal, cyn belled ag y cydymffurfir â'r Cod. Lle bo'n briodol, gall technegau golygyddol sy'n gallu helpu i gadw didueddrwydd dyladwy mewn newyddion gynnwys:

- ceisio safbwyntiau gwahanol o amrywiaeth o ffynonellau;
- adlewyrchu gwahanol safbwyntiau gyda gwrthrychedd dyladwy ac mewn cyd-destun o fewn eitem ar-lein neu, lle bo'n briodol, ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol;
- ei gwneud yn glir, gyda'r amlygrwydd priodol, fod y BBC wedi gofyn am farn unigolion, sefydliadau neu bartïon perthnasol eraill penodol;
- adlewyrchu'n briodol unrhyw unigolion sydd wedi gwrthod rhoi sylwadau;
- sicrhau bod safbwyntiau a fynegir mewn deunydd ar-lein yn cael eu herio, eu profi neu eu harchwilio'n briodol lle bo angen; a/neu

[4] Gweler Adolygiad Canol Tymor y BBC 2024:

- rhoi cyd-destun perthnasol i ddefnyddwyr, gan gynnwys drwy ddolenni i gynnwys cysylltiedig, lle bo hynny'n briodol.

7.16 Ni ddylai'r BBC dybio bod gan gynulleidfaoedd wybodaeth flaenorol am gyd-destun perthnasol neu farn neu safbwyntiau gwahanol penodol.

Rheol 5.2 Dylai camgymeriadau sylweddol yn y newyddion fel arfer gael eu cydnabod a'u cywiro'n gyflym. Dylid tynnu sylw defnyddwyr yn briodol at gywiriadau.

7.17 Pwrpas Rheol 5.2 yw nid yn unig sicrhau bod camgymeriadau sylweddol yn cael eu cywiro, ond hefyd hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd pan fydd camgymeriadau o'r fath wedi digwydd. Mewn amgylchedd ar-lein, lle gallai'r cynnwys ddal i fod ar gael i gynulleidfaoedd am gyfnodau estynedig, gall amlygu'n briodol hefyd helpu defnyddwyr i ddeall bod fersiwn gynharach o'r deunydd yn cynnwys gwall pwysig. Dylid gwahaniaethu rhwng diwygiadau a diweddariadau rheolaidd a wneir wrth i stori ddatblygu, a chywiriadau a wneir i roi sylw i gamgymeriadau pwysig.

7.18 Caiff ystyriaethau perthnasol yn ymwneud â natur barhaol deunydd ar-lein eu trafod ymhellach yn yr adran gynharach ar Themâu Cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein.

7.19 Wrth ystyried cydymffurfiaeth â Rheol 5.2, mae Ofcom yn debygol o ystyried ffactorau fel a ganlyn:

- y dyddiad pryd cafodd y deunydd ei bostio gyntaf;
- i ba raddau y mae'r deunydd yn dal i fod ar gael i gynulleidfaoedd; a/neu
- amseriad unrhyw gydnabyddiaeth neu gywiriadau i'r deunydd.

7.20 Mater golygyddol i'r BBC o hyd yw penderfynu sut y caiff cywiriadau eu hamlygu. Fodd bynnag, wrth ystyried a yw amlygu'n briodol, mae Ofcom yn debygol o ystyried amrywiaeth o ffactorau cyd-destunol, gan gynnwys:

- natur ac arwyddocâd y camgymeriad;
- gweledded ac amlygrwydd y cywiriad; a/neu
- fformat a'r math o eitem ar-lein a oedd yn cynnwys y camgymeriad.

7.21 Mewn amgylchedd ar-lein, efallai y bydd gwahanol fathau o ddeunydd yn gofyn am wahanol ffyrdd o amlygu. Er enghraifft, gall yr hyn sy'n briodol ar gyfer erthygl newyddion, tudalen fyw, post cyfryngau cymdeithasol neu fideo ffurf fer fod yn wahanol yn dibynnu ar sut mae cynulleidfaoedd yn debygol o fod wedi canfod y deunydd gwreiddiol.

7.22 Gellir dosbarthu cynnwys newyddion y BBC ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r BBC a llwyfannau trydydd parti. Pan fydd cynnwys wedi cael ei ddosbarthu ar draws nifer o wasanaethau neu lwyfannau, gall Ofcom ystyried i ba raddau mae'r BBC wedi cymryd camau priodol i ddelio â chamgymeriad arwyddocaol yn y gwahanol ffurfiau y darparwyd y deunydd hwnnw ynddynt. Wrth ystyried materion o'r fath, efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r BBC gyfeirio at y canllaw ar Themâu cyffredinol mewn deunydd ar-lein.

Rheol 5.3 Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd, gohebydd nac awdur mewn unrhyw eitem ar-lein sy'n cael ei gyfrif yn newyddion, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Os gellir cyfiawnhau defnyddio gwleidydd fel hyn, rhaid datgan teyrngarwch gwleidyddol yr unigolyn yn glir wrth y gynulleidfa.

7.23 Gallai'r Nodiadau Canllaw i Adran Pump o'r Cod Darlledu helpu'r BBC i ddeall yr egwyddorion sefydledig sy'n sail i Reol 5.3, gan gynnwys y rhesymeg dros gyfyngu ar ddefnyddio gwleidyddion i gyflwyno newyddion.

7.24 Mae Rheol 5.3 wedi cael ei haddasu ar gyfer yr amgylchedd ar-lein drwy ymestyn y cyfyngiad i awduron deunydd ar-lein. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys testunol yn neunydd ar-lein y BBC ac mae'n datgan yn glir na ddylai gwleidyddion ysgrifennu cynnwys newyddion i'w roi yn neunydd ar-lein y BBC, oni bai bod gofynion y rheol yn cael eu bodloni.

7.25 Wrth ystyried a yw unigolyn yn gweithredu fel awdur at ddibenion Rheol 5.3, mae Ofcom yn debygol o ystyried y rôl y mae'r unigolyn hwnnw'n ei chwarae yn y broses o greu a chyflwyno'r eitem ar-lein berthnasol. Mae hyn yn debygol o gynnwys, ond nid yw o reidrwydd yn gyfyngedig i, unigolion sy'n cael eu henwi wrth y gynulleidfa fel awdur eitem ar-lein, fel drwy is-bennawd sy'n cyd-redeg ag erthygl.

7.26 Bydd y cwestiwn a yw eitem o ddeunydd ar-lein y BBC yn cael ei chyfrif yn newyddion at ddibenion Rheol 5.3 yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos. Nid yw'r Canllawiau'n ceisio darparu ffactorau sy'n cyfateb i'r rheini sy'n cael eu defnyddio ym maes darlledu i awgrymu gwahaniaethau rhwng rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes, gan gydnabod nad yw deunydd ar-lein y BBC yn cael ei strwythuro'n gyffredinol o amgylch categorïau tebyg.

7.27 Mae'r ffaith bod deunydd yn ymddangos ar un o wasanaethau'r brand BBC News yn debygol o fod yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu a yw eitem yn cyfrif fel newyddion at ddibenion Rheol 5.3, gan ei fod yn dangos bod y BBC wedi dewis cyflwyno'r deunydd mewn amgylchedd newyddion. Fodd bynnag, ni fydd yr ystyriaeth honno o reidrwydd yn pennu'r canlyniad terfynol. Fel y cydnabyddir yn y canllawiau i Reol 5.1, gall gwasanaethau brand BBC News greu cynnwys nad yw'n cyfrif fel newyddion ynddo'i hun.

7.28 Pan fydd deunydd hefyd ar gael fel cynnwys darlledu, fel allbwn materion cyfoes neu newyddion sy'n cael ei ffrydio'n fyw, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r BBC ystyried y Nodiadau Canllaw i Adran Pump y Cod Darlledu sy'n ymwneud â newyddion a materion cyfoes wrth ystyried a yw eitem o ddeunydd ar-lein y BBC yn cyfrif fel newyddion at ddibenion Rheol 5.3.

7.29 Gall nodiadau canllaw perthnasol y Cod Darlledu hefyd helpu'r BBC i ddeall sut mae gweithredu'r eithriad i Reol 5.3 ac o dan ba amgylchiadau y gellir cyfiawnhau yn olygyddol i ddefnyddio gwleidydd. Fel sy'n cael ei egluro yn y canllawiau hynny, byddai Ofcom yn disgwyl i amgylchiadau o'r fath fod yn brin ac i'w hystyried yng ngoleuni ffeithiau penodol yr achos.

Rheolau sy'n ymwneud â gofynion dydd-dd-rwydd arbennig: newyddion a chynnwys o fath arall

Materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol

Ystyr "materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol"

Mae materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau yn faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol y mae gwleidyddion, diwydiant a/neu'r cyfryngau yn dadlau yn eu cylch. Nid yw materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn destun dadlau o reidrwydd ond maent yn ymwneud â pholisi sy'n destun trafod neu sydd wedi'i bennu eisoes gan lywodraeth genedlaethol, ranbarthol neu leol neu gan gyrff sydd wedi'u

hawdurdodi gan y cyrff cyhoeddus hynny i wneud polisi ar eu rhan, er enghraifft, cyrff anllywodraethol, sefydliadau rhyngwladol perthnasol, etc.

7.30 Mae'r nodiadau Canllaw ar gyfer Adran Pump o'r Cod Darlledu yn cynnwys esboniadau sefydledig o'r cysyniadau o faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r BBC gyfeirio at y canllaw hwnnw wrth ystyried gweithredu Rheolau 5.4 i 5.10 o'r Cod.

7.31 Bydd p'un a yw eitem ar-lein yn delio â mater gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu fater sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau perthnasol. Fel ym maes darlledu, ni fydd pob cyfeiriad at fater gwleidyddol, mater polisi cyhoeddus neu bwnc sy'n destun dadlau o reidrwydd yn ysgogi'r gofynion dydueddrwydd arbennig yn Adran Pump.

Rheol 5.4 Rhaid i ddeunydd ar-lein y BBC wahardd pob mynegiant o farn a safbwyntiau'r BBC ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol (oni bai fod y person hwnnw'n siarad mewn fforwm deddfwriaethol neu mewn llys barn). Mae barn a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn.

7.32 Mae Rheol 5.4 yn mynnu bod pob mynegiant o farn a safbwyntiau'r BBC yn cael eu gwahardd o faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol, yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn y rheol. Nid yw'r rheol wedi'i chyfeirio at gyfranwyr yn y BBC sy'n mynegi barn bersonol pan nad oes modd priodoli'r farn honno i'r BBC ei hun. Yn hytrach, mae'n ymwneud â mynegi barn a safbwyntiau'r BBC fel sefydliad ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol.

7.33 Wrth weithredu Rheol 5.4, bydd Ofcom yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a'r holl amgylchiadau perthnasol wrth asesu a oes modd priodoli barn neu safbwynt yn briodol i'r BBC. Gall yr ystyriaethau perthnasol gynnwys rôl a chyfrifoldebau'r unigolyn dan sylw, natur y deunydd, ac i ba raddau y gellir yn rhesymol ystyried bod y farn neu'r safbwynt yn cynrychioli safbwynt y BBC yn hytrach na safbwynt cyfrannwr unigol.

7.34 Mae'r eithriad sy'n ymwneud â safbwyntiau a barn ynghylch darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn weithredol ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus darlledu ac ar-lein y BBC yn y DU. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r BBC yn cael ei hatal rhag adrodd ar faterion sy'n ymwneud â'r BBC a darpariaeth ei Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU, rhoi sylwadau arnynt na'u hesbonio. Gall deunydd o'r fath gynnwys datganiadau corfforaethol, esboniadau o benderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau'r BBC, a sylw pan fo'r BBC ei hun yn destun i'r adroddiadau.

7.35 Pan fydd deunydd o'r fath yn cyfrif fel newyddion, mae'n dal yn rhwym wrth y gofynion am gywirdeb dyladwy a dydueddrwydd dyladwy a nodir mewn mannau eraill yn Adran Pump. Yn yr un modd, pan fydd deunydd yn delio â mater gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau, neu fater sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol, bydd y gofynion perthnasol sy'n ymwneud â dydueddrwydd dyladwy yn dal i fod yn berthnasol.

Rheol 5.5. Rhaid i'r BBC gadw dydueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol yn ei deunydd ar-lein. Gellir sicrhau hyn mewn eitem ar-lein neu drwy gyfres o eitemau ar-lein a gymerir fel cyfangorff.

7.36 Mae'r Nodiadau Canllaw i Adran Pump o'r Cod Darlledu yn cynnwys esboniadau sefydledig o'r egwyddorion sy'n sail i'r gofyn am ddidueddrwydd a gallent helpu'r BBC i ddeall sut mae Ofcom yn delio â'r gofynion hyn yn gyffredinol. Mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar weithredu'r egwyddorion hynny mewn amgylchedd ar-lein ac, yn benodol, ar gysyniadau **eitem ar-lein** a **chyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff**, y gellir cynnal didueddrwydd dyladwy drwyddynt dan Reol 5.5.

Ystyr "eitem ar-lein"

Mae "eitem ar-lein" yn drefniant o ddeunydd ar-lein a gyflwynir i gynulleidfaoedd fel un eitem adnabyddadwy. Gallai hyn gynnwys testun ysgrifenedig; deunyddiau llonydd neu symudol, gyda neu heb sain; deunyddiau ar-lein sain yn unig; neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Gall eitem ar-lein gael ei diweddaru dros amser ond bydd yn dal i fod yn adnabyddadwy fel yr un eitem. Gallai eitem ar-lein gynnwys, er enghraifft, erthygl destunol gyda delweddau, sain, fideo neu ddolenni wedi'u hymgorffori; eitem fideo neu sain unigol, gan gynnwys rhaglen sy'n cael ei ffrydio'n fyw; neu gynnwys annibynnol arall.

7.37 Wrth ystyried a yw deunydd yn un eitem ar-lein, mae Ofcom yn debygol o ystyried y berthynas rhwng elfennau cyfansoddol yr eitem, y ffordd y mae'r cynnwys yn cael ei drefnu a'i gyflwyno, a'r ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn debygol o'i ganfod.

7.38 Nid yw'r ffaith bod eitem yn cynnwys nifer o elfennau ynddi'i hun yn golygu mai cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol ydyw. Er enghraifft, byddai tudalen fyw sy'n cael ei diweddaru'n barhaus fel arfer yn cael ei hystyried yn un eitem ar-lein, er y gallai gynnwys nifer o ddiweddariadau, deunydd wedi'i ymgorffori, neu gynnwys mewn gwahanol fformatau.

7.39 Trafodir yr egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i ddarnau o ddeunydd ar-lein yn yr adran gynharach ar y canllaw i Themâu Cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein o dan "Eitemau ar-lein a chyflwyno cynnwys". Pan fydd cynnwys yn ddarn, yn ddetholiad neu'n addasiad o eitem ar-lein ehangach, mae Ofcom yn debygol o ystyried y berthynas rhwng y darn a'r eitem ar-lein sylfaenol wrth bennu'r eitem ar-lein briodol er mwyn ei hasesu. Yn gyffredinol, bydd dolen glir neu ffordd arall o gyfeirio at eitem ar-lein ehangach y gellir ei hadnabod yn arwydd cryf mai'r eitem ar-lein berthnasol yw'r eitem ar-lein ehangach y mae'r darn yn deillio ohoni. Fodd bynnag, bydd Ofcom yn ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys y ffordd mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno a'r ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn debygol o'i ganfod. I'r gwrthwyneb, pan fydd cynnwys yn cael ei gyflwyno fel darn o ddeunydd annibynnol heb gysylltiad adnabyddadwy ag eitem ehangach, mae Ofcom yn fwy tebygol o ystyried y deunydd hwnnw fel eitem ar-lein ar wahân ynddi'i hun.

7.40 Mae ystyried a yw'r didueddrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal mewn eitem ar-lein yn gofyn am asesiad cyd-destunol llawn o'r eitem ar-lein, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Fel y nodir uchod, gall eitem ar-lein gynnwys nifer o elfennau cyfansoddol, gan gynnwys testun, delweddau, sain, fideo a dolenni. Gall elfennau o'r fath fod yn ffactorau cyd-destunol perthnasol yn asesiad Ofcom. Fodd bynnag, byddant fel arfer yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr eitem ar-lein y maent yn berthnasol iddi, a'r argraff gyffredinol y mae'r eitem honno yn ei chreu.

7.41 Gall y modd y sicrheir didueddrwydd dyladwy fod yn wahanol yn ôl fformat a natur yr eitem ar-lein. Er enghraifft, gall y dull a ddefnyddir mewn erthygl destun, tudalen fyw,

adroddiad fideo, podlediad, fideo ffurf fer neu bost cyfryngau cymdeithasol fod yn wahanol, cyn belled ag y bo gofynion y Cod yn cael eu bodloni. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellir cadw dideueddrwydd dyladwy mewn un eitem ar-lein:

- drwy adlewyrchu safbwyntiau perthnasol yn yr eitem ei hun;
- drwy grynhoi safbwyntiau amgen gyda'r gwrthrychedd dyladwy ac yn eu cyd-destun;
- drwy adlewyrchu'n briodol ymatebion gan unigolion, sefydliadau neu bartïon eraill sy'n cael eu beirniadu neu sy'n destun i'r ddadl;
- drwy ei gwneud yn glir pan fydd partïon perthnasol wedi gwrthod rhoi sylwadau; a
- drwy graffu, profi neu herio safbwyntiau'n briodol lle bo angen.

7.42 Mewn amgylchedd ar-lein, gall dolenni a dulliau eraill o gyfeirio hefyd ffurfio rhan o'r cyd-destun golygyddol ehangach sydd ar gael i gynulleidfaoedd. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall dolenni ddarparu mynediad at wybodaeth ychwanegol, deunydd ffynhonnell, cyd-destun cefndirol neu safbwyntiau amgen. Pan fo hynny'n berthnasol, gall Ofcom ystyried deunydd o'r fath wrth ystyried y cyd-destun y caiff eitem ar-lein ei chyflwyno ynddo a'i chanfod. Fodd bynnag, ni fydd bodolaeth dolen, cynnwys wedi'i ymgorffori na deunydd cysylltiedig, ynddo'i hun, yn penderfynu a yw dideueddrwydd dyladwy wedi cael ei gadw mewn eitem ar-lein. Trafodir yr egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i gysylltiadau trydydd parti yn y canllawiau Themâu Cyffredinol.

Ystyr "cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff":

Mae "Cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff" yn cyfeirio at fwy nag un eitem ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol, sy'n delio â'r un materion cysylltiedig o fewn cyfnod priodol. Gall cyfres gynnwys, er enghraifft: cyfres o erthyglau newyddion 'arbennig' sydd wedi'u cyplysu'n benodol sy'n canolbwyntio ar un safbwynt penodol ar bwnc penodol; clwstwr o erthyglau sy'n perthyn yn agos ar yr un stori a gyhoeddir mewn cyfnod byr; neu becyn o gynnwys newyddion, dadansoddi ac esboniadol sy'n delio â'r un stori neu ddatblygiad ac sy'n cael ei gyflwyno fel sylw cysylltiedig.

Enghreifftiau yw'r rhain a gellid ychwanegu rhagor at y rhestr.

7.43 Dylid gwahaniaethu rhwng cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol ac un eitem ar-lein sy'n cynnwys nifer o elfennau cyfansoddol neu ddiweddariadau. Bydd p'un a yw eitemau ar-lein yn ffurfio rhan briodol o'r un gyfres yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau perthnasol. Nid yw bodolaeth testun a rennir ynddo'i hun yn debygol o fod yn ddigonol. Yn yr un modd, ni fydd y ffaith bod cynnwys yn ymddangos ar yr un cyfrif cyfryngau cymdeithasol, llwyfan, ffrwd neu dudalen pwnc y BBC, ynddi'i hun, yn ddigon i sefydlu cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol.

7.44 Wrth ystyried a geir **cysylltiad golygyddol** digonol rhwng eitemau ar-lein, mae Ofcom yn debygol o ystyried a geir perthynas olygyddol ddigonol rhyngddynt, cymaint fel y gellir eu trin gyda'i gilydd yn briodol fel rhan o'r un gyfres. Mae'r ffactorau perthnasol yn debygol o gynnwys:

- a yw'r eitemau'n ymwneud â'r un stori neu ddatblygiad yn hytrach nag â maes pwnc eang;

- a oes perthynas olygyddol glir rhyngddynt, er enghraifft drwy groesgyfeirio, fframio cyson, neu un eitem yn adeiladu ar un arall, yn ei diweddaru neu'n ymateb iddi;
- a yw'r eitemau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu cysylltiad golygyddol bwriadol yn hytrach na gorgyffyrddiad damweiniol neu thematig; ac
- a fyddai'r berthynas rhwng yr eitemau yn amlwg o'r ffordd y cânt eu cyflwyno.

7.45 Gall dolenni, croesgyfeiriadau ac adnoddau llywio eraill helpu cynulleidfaoedd i ganfod deunydd cysylltiedig a chael gafael ar safbwyntiau neu gyd-destun ychwanegol a gallant fod yn berthnasol i asesiad Ofcom. Fodd bynnag, ni fydd eu presenoldeb neu eu habsenoldeb, ynddo'i hun, yn penderfynu a oes cyfres yn bodoli neu a yw didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal.

7.46 Bydd y cwestiwn a yw'r eitemau wedi'u cyhoeddi mewn **cyfnod priodol** yn dibynnu ar natur y mater a datblygiad y sylw. Mae'r ffactorau perthnasol yn debygol o gynnwys:

- a yw'r eitemau'n ymwneud â'r un cam neu ddatblygiad y stori;
- a ydynt yn cael eu cyhoeddi o fewn amserlen lle mae'r cysylltiad rhyngddynt yn dal yn uniongyrchol ac yn amlwg; ac
- a fyddai treigl amser yn effeithio ar sut mae cynulleidfaoedd yn debygol o ddeall y berthynas rhwng yr eitemau.

7.47 Pan fydd cyfnodau hwy o amser yn gwahanu eitemau, fel bod y cysylltiad yn gwanhau neu'n adlewyrchu datblygiadau penodol, efallai y byddant yn llai tebygol o gael eu hystyried fel rhai sy'n ffurfio rhan o'r un gyfres.

7.48 Gall cyfres gynnwys ymysg pethau eraill brosiectau golygyddol sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw, eu brandio neu eu dynodi'n ffurfiol. Gall enghreifftiau o gyfresi gynnwys:

- llinyn golygyddol neu adroddiad arbennig wedi'i gyfeirio'n glir sy'n cynnwys nifer o erthyglau annibynnol cysylltiedig;
- clwstwr o erthyglau sydd â chysylltiad agos â'i gilydd ar yr un stori a gyhoeddwyd mewn cyfnod byr;
- pecyn o newyddion, dadansoddiadau a chynnwys esboniadol sy'n delio â'r un stori neu ddatblygiad ac a gyflwynir fel sylw cysylltiedig;
- dilyniant o fideos wedi'u cyhoeddi ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC sy'n edrych ar wahanol agweddau ar yr un stori, mater neu ddatblygiad dros gyfnod byr; a
- chyfres o eitemau sy'n archwilio gwahanol safbwyntiau, agweddau neu ganlyniadau'r un mater, lle mae'r eitemau'n adeiladu ar ei gilydd wrth i'r sylw ddatblygu.

7.49 Enghreifftiau yn unig yw'r rhain. Bydd p'un a ellir trin eitemau ar-lein yn briodol fel cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol yn dibynnu ar y berthynas olygyddol gyffredinol rhyngddynt, gan ystyried y ffactorau a drafodir uchod.

Rheol 5.6 Pan fo'r BBC yn bwriadu sicrhau didueddrwydd dyladwy ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol sy'n cael eu hystyried yn gyfangorff, dylai hyn fod yn glir i'r gynulleidfa drwy'u bod wedi cael eu hamlygu'n briodol.

7.50 Pan fo'r BBC yn dibynnu ar gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol i gynnal didueddrwydd dyladwy, dylid rhoi i'r gynulleidfa fel arfer arwydd digonol bod yr eitemau perthnasol yn gysylltiedig ac y bwriedir iddynt gael eu hystyried gyda'i gilydd.

7.51 Mater golygyddol i'r BBC o hyd yw penderfynu sut caiff eitemau eu hamlygu. Wrth ystyried a yw'r amlygu'n briodol, mae Ofcom yn debygol o ystyried: y math o eitemau ar-lein a'u fformat; y ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn debygol o ganfod y deunydd, ac i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn debygol o ddeall y bwriedir i'r eitemau gael eu hystyried gyda'i gilydd. Gall enghreifftiau gynnwys:

- dolenni uniongyrchol rhwng eitemau ar-lein cysylltiedig;
- llinynnau golygyddol neu adroddiadau arbennig;
- casgliadau o gynnwys neu becynnau wedi'u curadu;
- brandio neu labelu cyffredin;
- cyfeiriadau yn y cynnwys ei hun; neu
- dechnegau golygyddol eraill sy'n gwneud y berthynas rhwng eitemau ar-lein cysylltiedig yn amlwg i gynulleidfaoedd.

7.52 Pan fydd cynnwys yn cael ei gyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau trydydd parti, mae amlygu yn arbennig o bwysig oherwydd gall cynulleidfaoedd ddod ar draws eitemau unigol ar wahân ac allan o'u trefn. Ni fydd y ffaith bod cynnwys yn ymddangos ar yr un cyfrif cyfryngau cymdeithasol, llwyfan neu ffrwd, ar ei ben ei hun, fel arfer yn cyfrif fel dull amlygu priodol.

Rheol 5.7 Ni ddylid camliwio safbwyntiau a ffeithiau mewn deunydd ar-lein mewn ffordd a fyddai'n taflu amheuaeth ar a yw dideuddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal. Hefyd rhaid cyflwyno safbwyntiau gyda'r pwysau dyladwy dros gyfnodau priodol.

7.53 Dan Reol 5.7 ni chaniateir camliwio ffeithiau neu safbwyntiau a fyddai'n tanseilio'r gallu i gynnal dideuddrwydd dyladwy mewn perthynas â'r materion yr ymdrinnir â nhw yn y deunydd ar-lein. Nid yw cywirdeb dyladwy yn un o'r gofynion statudol y tu allan i newyddion. Felly, dylid gwahaniaethu rhwng Rheol 5.7 a Rheol 5.1, sy'n berthnasol i newyddion, a Rheol 2.2, sy'n ymwneud â deunydd ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol.

7.54 Mae'r gofyn i gyflwyno safbwyntiau gyda phwysau dyladwy dros amserlenni priodol yn rhan bwysig o'r asesiad o dan Reol 5.7 a gall fod yn berthnasol wrth benderfynu, os gallai camliwio fod wedi digwydd, a yw dideuddrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal serch hynny. Wrth ddeall ystyr "pwysau dyladwy", efallai y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at ran gynharach yr adran hon sy'n ymdrin ag ystyr "dyladwy" yng nghyd-destun dideuddrwydd dyladwy.

7.55 Pan fydd pwysau dyladwy yn cael ei ystyried ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol, gall yr ystyriaethau sy'n berthnasol i "gyfnod priodol" a drafodir yn y Canllawiau i Reol 5.5 hefyd helpu i ddeall beth allai fod yn amserlenni priodol at ddibenion Rheol 5.7.

7.56 Dylai'r BBC ofalu bod safbwyntiau'n cael eu cynrychioli gyda'r gwrthrychedd dyladwy ac yn eu cyd-destun. Ni ddylai deunydd ar-lein gyflwyno na phortreadu safbwyntiau a ffeithiau mewn ffordd sy'n ystumio eu hystyr neu eu harwyddocâd yn sylweddol er mwyn tanseilio'r dideuddrwydd dyladwy.

Rheol 5.8 Rhaid egluro wrth y gynulleidfa unrhyw fuddiant personol sydd gan ohebydd, cyflwynydd neu awdur a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch dideuddrwydd dyladwy'r deunydd ar-lein".

7.57 Wrth ddelio â materion a ddaw dan y gofynion didueddrwydd arbennig, byddai Ofcom yn disgwyl i'r BBC fod wedi sefydlu gweithdrefnau fel bod gohebwyr, awduron a chyflwynwyr o leiaf yn ymwybodol o'r rheol hon ac yn cael cyfle i wneud datganiad i'r darlledwr. Os na fyddai'n rhesymol i'r BBC fod yn ymwybodol o'r cyfryw fuddiant, byddai Ofcom yn ystyried hynny pe ceid achos neu gŵyn. Ni ddisgwylir i gyflwynwyr, awduron na gohebwyr roi gwybod i'r cyhoedd am faterion meddygol personol a phreifat.

7.58 At ddibenion Rheol 5.8, bydd Ofcom yn defnyddio'r dull gweithredu a nodir yn y canllaw i Reol 5.3 ynghylch ystyr "awdur".

Rheol 5.9 Gall cyflwynwyr a gohebwyr (heblaw am gyflwynwyr a gohebwyr mewn deunydd ar-lein sy'n cyfrif fel newyddion), cyflwynwyr eitemau ar-lein "barn bersonol" neu "awdurol", a chadeiryddion eitemau ar-lein sy'n rhaglenni trafod neu'n ffrydiau byw fynegi eu barn eu hunain ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu faterion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol. Fodd bynnag, rhaid cynrychioli safbwyntiau amgen yn ddigonol naill ai yn yr eitem ar-lein ei hun, neu mewn cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff.

Yn ogystal, rhaid i gyflwynwyr a gohebwyr beidio â defnyddio'r fantais o ymddangos yn rheolaidd yn neunyddiau ar-lein y BBC i hyrwyddo eu barn mewn modd sy'n groes i'r gofyn am ddidueddrwydd dyladwy.

Ystyr "barn bersonol" ac "awdurol"

Mae "barn bersonol" mewn perthynas ag eitemau ar-lein yn cyfeirio at eitem ar-lein sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol.

Mae eitemau ar-lein barn bersonol yn gallu amrywio o fynegiad plaen o farn unochrog iawn, er enghraifft gan rywun sy'n aelod grŵp sy'n ymgyrchu ar y mater, i safbwyntiau "awdurol" gan newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigaeth mewn maes sy'n ei alluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn farn brif ffrwd.

7.59 Gall Canllawiau'r Cod Darlledu helpu'r BBC i ddeall yr egwyddorion sefydledig sy'n ymwneud â barn bersonol a chynnwys awdurol.

7.60 Gall Rheol 5.9 fod yn berthnasol ar draws amrywiaeth o ddeunydd ar-lein y BBC lle mae cyflwynwyr, gohebwyr neu awduron yn mynegi eu barn eu hunain. Ni fydd cynnwys dadansoddiadau, dehongliadau neu farn newyddiadurol broffesiynol, ynddo'i hun, yn golygu bod eitem yn cyfrif fel barn bersonol neu gynnwys awdurol at ddibenion y Rheol. Mae deunydd yn fwy tebygol o fod yn farn bersonol neu'n gynnwys awdurol os mai ei bwrpas yw cyflwyno neu eirioli dros neu yn erbyn safbwynt, barn neu ddaliadau penodol.

7.61 Wrth ystyried a yw didueddrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal, gall Ofcom asesu cynrychiolaeth safbwyntiau amgen mewn eitem unigol ar-lein neu, pan fo'n briodol, ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff (gweler Rheol 5.5).

7.62 Yn wahanol i'r rheol gyfatebol yn y Cod Darlledu, nid yw Rheol 5.9 yn cynnwys cyfeiriad penodol at raglenni cyflwynwyr lle mae pobl yn ffonio i mewn. Mae Ofcom yn deall nad yw'r fformat hwn fel arfer yn cael ei gynnwys gan y BBC yn ei deunydd ar-lein. Fodd bynnag, pe bai unrhyw gynnwys o'r fath yn cael ei gynnwys yn neunydd ar-lein y BBC, byddai'n dal angen i'r BBC gadw didueddrwydd dyladwy ynddo yn unol â Rheol 5.5.

Rheol 5.10 Rhaid hysbysu'r gynulleidfa'n glir ar y dechrau os yw eitem ar-lein yn un "awdurol" neu'n cyflwyno barn bersonol. Mae hyn yn ofyniad sylfaenol ac mae'n bosibl na fydd yn ddigonol ym mhob amgylchiad.

7.63 Mater golygyddol i'r BBC yw amlygu eitemau ar-lein fel rhai awdurol a rhai sy'n cyflwyno barn bersonol. Fodd bynnag, dylai'r dull a fabwysiadwyd fod yn ddigon i wneud natur y cynnwys yn glir i gynulleidfaoedd, gan ystyried fformat yr eitem ar-lein a'r ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn debygol o'i chanfod.

7.64 Nid yw dangos barn bersonol neu gynnwys awdurol yn glir, ynddo'i hun, yn sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion ehangach o ran didueddrwydd dyladwy yn Adran Pump. Mae'r gofynion perthnasol sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy yn dal yn berthnasol.

Materion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol

Ystyr "materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol"

Bydd y rhain yn amrywio yn ôl digwyddiadau ond fel arfer maent yn faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu'n faterion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol sydd o bwys cenedlaethol, ac yn aml o bwys rhyngwladol, neu'n rhai o bwysigrwydd tebyg o fewn ardal ddarlledu lai.

Rheol 5.11 Yn ogystal â'r rheolau uchod, rhaid i'r BBC gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol ym mhob eitem ar-lein neu mewn cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff.

Rheol 5.12 Wrth ymdrin â materion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol, rhaid cynnwys ystod ddigon eang o safbwyntiau pwysig a rhoi pwysau dyladwy iddynt ym mhob eitem ar-lein neu gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol. Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau.

7.65 Mae'r Nodiadau Canllaw ar gyfer Adran Pump o'r Cod Darlledu yn cynnwys esboniadau sefydledig o gysyniadau materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol, yn ogystal â chysyniadau cysylltiedig fel safbwyntiau pwysig a phwysau dyladwy. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r BBC gyfeirio at y canllaw hwnnw wrth ystyried Rheolau 5.11 i 5.12 o'r Cod.

7.66 Mae'r rheolau ychwanegol hyn yn angenrheidiol oherwydd natur y pwnc dan sylw: mae mater gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau neu fater pwysig sy'n ymwneud â'r polisi cyhoeddus cyfredol yn bwysig iawn ac mae'n debygol o fod yn gyfredol. Fel ym maes darlledu, bydd Ofcom yn cynnal trothwy uchel ar gyfer y gofynion uwch hynny.

Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda

8.1 Darperir yr adran hon o'r Canllawiau i helpu'r BBC i ddehongli a gweithredu Adran Chwech o'r Cod.

8.2 Mae'r rheolau yn Adran Chwech yn adlewyrchu'r rheolau cyfatebol yn y Cod Darlledu i raddau helaeth. Yn unol â hynny, mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen esboniad ychwanegol mewn cyd-destun ar-lein. Yn benodol, maent yn rhoi sylw i'r canlynol:

- trin deunydd ar-lein archif yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda; a'r
- cysyniad o awdur mewn perthynas â deunydd ar-lein.

8.3 Os nad yw'r cysyniadau a'r egwyddorion wedi newid rhyw lawer, efallai y bydd y BBC yn gweld bod y nodiadau Canllaw ar gyfer Adran Chwech y Cod Darlledu yn gyd-destun cefndir defnyddiol. Mae'r rhain yn cynnwys esboniadau sefydledig o'r canlynol:

- didueddrwydd dyladwy yn ystod ymgyrchoedd etholiadau a refferenda;
- pwysau dyladwy yn y sylw a roddir i etholiadau a refferenda;
- y ffordd y caiff pleidiau, ymgeiswyr ac ymgeiswyr annibynnol eu trin yn ystod cyfnodau etholiad; a
- sefydliadau dynodedig a chyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda.

8.4 Gall y Canllaw i Adran Pump o'r Cod hwn hefyd fod yn berthnasol pan fydd sylw i etholiadau neu refferenda yn glynu wrth y gofynion didueddrwydd dyladwy sy'n cael eu trafod yn yr Adran honno.

Rheol 6.1 Mae'r rheolau yn Adran Pump, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn berthnasol i'r sylw a roddir i etholiadau a refferenda.

8.5 Mae Rheol 6.1 yn datgan yn glir fod y rheolau yn Adran Pump, ac yn enwedig Reolau 5.11 a 5.12, yn berthnasol i'r sylw a roddir i etholiadau a refferenda. Mae rheol 6.1 yn berthnasol i'r sylw a roddir i etholiadau neu refferenda y tu mewn a'r tu allan i'r DU.

8.6 Nid yw Rheolau 6.2 i 6.7 Adran Chwech yn berthnasol i Etholiadau Cynghorau Plwyf yn Lloegr nac Etholiadau Cynghorau Cymuned yng Nghymru a'r Alban. Fodd bynnag, mae'r Rheol yn Adran Pump, a Rheolau 5.11 a 5.12 yn benodol, yn berthnasol i'r sylw a roddir i'r etholiadau hyn.

8.7 Fel ym maes darlledu, gellir sicrhau didueddrwydd dyladwy dros gyfnod, er enghraifft yn ystod ymgyrch etholiadol neu refferendwm. Mewn amgylchedd ar-lein, gall hyn gynnwys cynnal didueddrwydd dyladwy ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir fel cyfangorff, yn unol â Rheolau 5.5 a 5.6.

8.8 Nid yw didueddrwydd dyladwy yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda yn golygu bod angen cydbwysedd mewn ystyr fathemategol syml bob amser. Wrth gyflawni ei rwymedigaethau i sicrhau didueddrwydd dyladwy, dylai'r BBC fabwysiadu dull cyson o asesu lefel y sylw a roddir i bleidiau, ymgeiswyr a chyfranogwyr eraill. Wrth wneud hynny, gall y BBC ystyried tystiolaeth fesuradwy a gwrthrychol o gefnogaeth etholiadol, ynghyd

â'r cyd-destun gwleidyddol ac etholiadol perthnasol, wrth benderfynu ar lefel gymharol y sylw a roddir i wahanol gyfranogwyr yn yr un etholiad neu refferendwm.

Rheol 6.2 Rhaid rhoi'r pwysau dyladwy ar y sylw a roddir i bleidiau ac ymgeiswyr unigol yn ystod cyfnod etholiad. Wrth benderfynu ar lefel briodol y sylw i'w rhoi i bleidiau ac ymgeiswyr annibynnol, rhaid i'r BBC ystyried tystiolaeth o'r gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu'r gefnogaeth bresennol. Rhaid i'r BBC hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig.

Ystyr "etholiad"

At ddiben yr adran hon mae etholiadau'n cynnwys etholiad cyffredinol seneddol, is-etholiad seneddol, etholiad llywodraeth leol, etholiad maer, etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, etholiad Senedd Cymru a'r Alban, ac etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Llundain.

Ystyr "cyfnod etholiad"

Yn achos etholiad cyffredinol seneddol, mae'r cyfnod hwn yn dechrau wrth ddiddymu'r Senedd. Yn achos is-etholiad seneddol, mae'r cyfnod hwn yn dechrau wrth gyhoeddi gwrit neu ar ddyddiad cynharach yn unol â hysbysiad yn y London Gazette. Yn achos etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau Senedd Cymru, mae'r cyfnod yn dechrau adeg diddymu Senedd Cymru neu Senedd yr Alban neu, yn achos is-etholiad, ar y dyddiad pan ddaw sedd yn wag. Yn achos Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Llundain ac etholiadau llywodraeth leol, mae'n dechrau ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau o etholiad. Ym mhob achos bydd y cyfnod yn dod i ben pan fydd pleidleisio'n gorffen.

Ystyr "Ymgeisydd"

Mae i ymgeisydd yr ystyr a roddir iddo yn adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n golygu ymgeisydd sydd wedi'i enwebu i sefyll yn yr etholiad neu ei gynnwys mewn rhestr o ymgeiswyr a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag ef.

8.9 Mae'n bosibl y bydd y Nodiadau Canllaw i Adran Chwech y Cod Darlledu yn helpu'r BBC i ddeall y cysyniad sefydledig o bwysau dyladwy a sut mae'n cael ei ddefnyddio yn ystod cyfnodau etholiadau.

8.10 Mater golygyddol i'r BBC yw beth sy'n cael ei ystyried yn sylw priodol at ddibenion Rheol 6.2. Fel ym maes darlledu, mae'r cysyniad o bwysau dyladwy yn hyblyg, ac mae ei weithredu'n dibynnu ar y cyd-destun etholiadol.

8.11 Wrth weithredu Rheol 6.2, rhaid i'r BBC ystyried tystiolaeth o'r gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu'r gefnogaeth bresennol, fel sy'n ofynnol gan y rheol. Rhaid i'r BBC hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig

Rheol 6.3 Rhaid rhoi pwysau dyladwy i sefydliadau dynodedig mewn sylw yn ystod cyfnod refferendwm. Rhaid i'r BBC hefyd ystyried rhoi sylw priodol i gyfranogwyr cymeradwy eraill sydd â barn a safbwyntiau pwysig.

Ystyr "refferendwm"

At ddiben yr adran hon mae refferendwm yn refferendwm statudol (y mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("PPERA") yn berthnasol iddo neu y mae adran 127 o PPERA yn berthnasol iddo) sydd yn cynnwys refferendwm ar draws y DU,

refferendwm cenedlaethol neu ranbarthol a gynhelir o dan ddarpariaethau un o Ddeddfau Senedd y DU neu Senedd yr Alban, ond nid yw'n cynnwys refferendwm lleol.

Ystyr "sefydliad dynodedig" a "cyfranogwyr cymeradwy"

Sefydliadau dynodedig a chyfranogwyr cymeradwy yw'r rheini sydd wedi'u dynodi gan y Comisiwn Etholiadol.

Ystyr "cyfnod refferendwm"

Yn achos refferenda, gall gwahanol gyfnodau fod yn berthnasol. Bydd refferendwm a gynhelir dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (fel y'i diwygiwyd) yn dechrau pan roddir drafft o Orchymyn gerbron y Senedd i'w gymeradwyo gan y ddau Dŷ. Yn achos refferendwm a gynhelir dan Ddeddfau eraill, nodir yr adeg pan fydd cyfnod refferendwm yn dechrau yn y Deddfau penodol. Yn achos Gorchymyn sydd gerbron y Senedd, rhoddir yr amser yn y Gorchymyn hwnnw. Ym mhob achos bydd y cyfnod yn dod i ben pan fydd pleidleisio'n gorffen.

8.12 Mae'n bosibl y bydd y Nodiadau Canllaw i Adran Chwech y Cod Darlledu yn helpu'r BBC i ddeall y cysyniad sefydledig o bwysau dyladwy a sut mae'n cael ei ddefnyddio yn ystod cyfnodau refferenda. Fel ym maes darlledu, nid yw pwysau dyladwy bob amser yn gofyn am lefelau cyfartal neu fathemategol gyfatebol o sylw a dylid asesu hyn yng nghyd-destun y refferendwm dan sylw.

Rheol 6.4 Rhaid gorffen trafod a dadansoddi materion sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda pan fydd y pleidleisio'n dechrau. (Mae hyn yn cyfeirio at agor y gorsafoedd pleidleisio eu hunain. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i unrhyw bleidlais a gynhelir drwy'r post yn unig.) Nid oes yn rhaid i'r BBC dynnu i lawr gynnwys archif dros y cyfnod pan fydd y gorsafoedd pleidleisio ar agor.

8.13 Pwrpas Rheol 6.4 yw sicrhau nad yw'r sylw a roddir i etholiadau a refferenda yn neunyddiau ar-lein y BBC yn effeithio'n uniongyrchol ar benderfyniadau pleidleiswyr tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor.

8.14 Yn wahanol i ddarlledu, gall deunydd ar-lein barhau i fod ar gael i gynulleidfaoedd ar ôl ei gyhoeddi. Felly, mae rheol 6.4 yn cydnabod natur barhaol cynnwys ar-lein ac nid yw'n mynnu bod y BBC yn dileu deunydd archif ar-lein tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor. Fodd bynnag, dylid gwahaniaethu rhwng y ffaith bod deunydd archif ar gael yn barhaus a chyhoeddi trafodaeth neu ddadansoddiad newydd yn ystod y cyfnod pleidleisio.

Rheol 6.5 Ni chaiff darlledwyr gyhoeddi canlyniadau unrhyw arolwg barn ar y diwrnod pleidleisio ei hun nes bydd gorsafoedd pleidleisio'r etholiad neu refferendwm yn cau.

8.15 Fel gyda Rheol 6.4, bwriad Rheol 6.5 ydy sicrhau nad yw'r sylw'n dylanwadu ar benderfyniadau pleidleiswyr tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwaharddiad statudol ar gyhoeddi data pleidleisio yn ystod y cyfnod hwn, fel y nodir yn adran 66A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Rheol 6.6 Rhaid i ymgeiswyr yn etholiadau'r DU, a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU, beidio â chael eu defnyddio fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr, cyflwynwyr neu awduron mewn unrhyw fath o ddeunydd ar-lein yn ystod cyfnod etholiad. Nid oes rhaid dileu deunydd ar-lein archif a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

8.16 Mae Rheol 6.6 yn ymwneud nid yn unig ag atal materion etholiadol rhag cael eu cyflwyno'n unochrog. Bwriad y rheol yw helpu i sicrhau uniondeb y broses ddemocrataidd, ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr uniondeb hwnnw, drwy atal unrhyw fantais etholiadol annheg rhag cael ei rhoi i ymgeisydd neu gynrychiolydd penodol drwy eu defnyddio fel cyflwynydd, cyfwelydd, gohebydd neu awdur yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

8.17 Mae cynnwys "awdur" yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys testunol yn neunydd ar-lein y BBC. Fel gyda chyflwynwyr, cyfwelwyr a gohebwyr, gall awduraeth roi i ymgeiswyr a chynrychiolwyr lwyfan ac amlygrwydd nad ydynt ar gael i gyfranogwyr eraill yn yr etholiad neu'r refferendwm.

8.18 Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r BBC gyfeirio at y Canllawiau i Reol 5.3 mewn perthynas â defnyddio'r term "awdur" mewn cyd-destun ar-lein.

8.19 Mae rheol 6.6 hefyd yn adlewyrchu natur barhaol deunydd ar-lein. Nid yw'r rheol yn mynnu bod y BBC yn dileu deunydd ar-lein archif a gyhoeddwyd cyn cyfnod etholiad neu refferendwm dim ond oherwydd bod unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn y rolau a nodir yn y rheol wedyn yn dod yn ymgeisydd neu'n gynrychiolydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rheol 6.7 Caniateir i ymddangosiadau neu gyfraniadau gan ymgeiswyr (yn etholiadau'r DU) neu gynrychiolwyr (cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU) mewn deunydd ar-lein anwleidyddol, a gafodd ei gynllunio neu ei amserlennu cyn cyfnod etholiad neu refferendwm, fynd rhagddynt, ond ni ddylid trefnu na darlledu dim ymddangosiadau neu gyfraniadau newydd yn ystod y cyfnod. Nid oes rhaid dileu deunydd ar-lein archif a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

8.20 Mae Rheol 6.7 yn cydnabod y gall deunydd ar-lein gael ei gomisiynu, ei greu, ei gynllunio neu ei gyhoeddi ymhell cyn iddo gael ei gyhoeddi yn y pen draw. Bwriad y rheol yw caniatáu i ymddangosiadau neu gyfraniadau gan unigolion sydd wedyn yn dod yn ymgeiswyr neu'n gynrychiolwyr fynd rhagddynt, os oedd yr ymddangosiadau neu'r cyfraniadau hynny'n rhan o ddeunydd ar-lein anwleidyddol a oedd wedi'i gynllunio neu ei amserlennu cyn dechrau cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm.

8.21 Gallai enghreifftiau o ddeunydd ar-lein anwleidyddol a allai fod wedi cael ei gynllunio neu ei amserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm fod yn gynnwys addysgol, diwylliannol, adloniant, ffordd o fyw, y celfyddydau, hanes, gwyddoniaeth neu gynnwys sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, yn ogystal ag eitemau ar-lein eraill yr oedd eu cyhoeddi yn rhan o gynllun golygyddol sefydledig cyn dechrau cyfnod perthnasol yr etholiad neu'r refferendwm. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

8.22 Fel gyda Rheol 6.6, mae Rheol 6.7 hefyd yn adlewyrchu natur barhaol deunydd ar-lein. Nid oes rhaid dileu deunydd ar-lein archif a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ystod cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm.